Cyhoeddir yr 20fed o bob Mis.

RHYDDID, GWIRIONEDD, CARIAD.

Yr Ymofynydd

Cyf. 8. Rhif 2.] CHWEFROR, 1908. [Pris 2c.

CYNNWYSIAD.

Ar Edyn Ffydd.
Nodion y Mis.
James Lloyd Jones (gyda darlun).
Hwnt i'r Synwyrau.
R. J. Jones, M.A.
Neges y Cymro.
Ymson y Myfyriwr.
John Ball.
Adolygiad.
Congl yr Awen.
Marwgofion.
Manion ac Hanesion.

Y GWIRIONEDD
A'CH RHYDDHA CHWI.

Argraffwyd gan J. D. Lewis, Gwasg Gomer, Llandyssul.

YR YMOFYNYDD.

Golygwyr—

T. ARTHUR THOMAS, Llandyssul, a SARNICOL, County School, Abertillery.

Pris 2g. y mis; drwy y *Post*, 2/6 y flwyddyn. Danfonir 6 cop ychwaneg yn ddidraul drwy y *Post*.

Telerau i Ddosparthwyr, 13 am bris dwsin o gopiau.

Yr erthyglau i fod yn llaw y Golygwyr erbyn y 10fed o bob mis, a gohebiaethau eraill erbyn y 15fed. Gyrer y Farddoniaeth i Sarnicol, County School Abertillery, Mon.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. LEWIS, Swyddfa'r "Ymofynydd," Llandyssul.

TALIADAU.

D.D., Charters Towers, Awstralia; J.D., Croesgoch; T.J.J., Bangor; Miss D., Llwynifan Cottage; Dr. G., Pontardulais; J.E., Aberdar; J.D., Hackney Road, Llundain; J.T., Vrondoaly; D.T., Prengwyn; J.R., Pontbrenllwyd; E.P.J., Llanrwst; J.T., Rhymney; J.D., Llanwnen; J.T., Liverpool; H.H., Birmingham; S.E., Burry Port; Mrs. J. Llansamlet; D.D., Felinfach; J.L., Bersham, Wrexham; R.D.D., Mardy.

YN EISIAU.—"YR YMOFYNYDD" am Tachwedd a Rhagfyr 1863; Chwefror 1878 (Ionawr yw y dyddiad ar y clawr); Awst 1887; Ionawr 1893. Danfoner i Swyddfa'r YMOFYNYDD.

YN AWR YN BAROD, PRIS 2s. 6c.

Yr Hen a'r Newydd mewn Duwinyddiaeth,

GAN Y

Parch. D. ADAMS, B.A., Liverpool.

Ar werth gan J. D. Lewis, Swyddfa'r 'Ymofynydd', Llandyssul.

ROBIN THE NEW STARCH

Reckitt's Blue.

ZEBRA GRATE POLISH.

YR YMOFYNYDD.

Cylchgrawn Misol y . . . .
Gymdeithas Undodaidd Gymreig.

"Profwch bob peth, deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

CYFRES NEWYDD.] CHWEFROR, 1908. [CYF. VIII. RHIF 2.

AR EDYN FFYDD.

Ti Oleuni Glân y Bywyd,
O ! tywyna'n wyn i lawr ;
Tro fy nos yn ddydd o wynfyd,
Tro fy ing yn ganu mawr.
Yn dy lewyrch
Try fy oes yn Salm o fawl.

Golch fy nghalon a'th ddaioni ;
Llona oriau oer fy nghur ;
Gwna fy enaid i hiraethu
Am y nefol, am y pur,
Ti yn unig
Dry fy oes yn ddwyfol wyn.

O ! gwasgara dy belydrau
Trwy fy mron yn gawod lân ;
Yna pan ddaw gorthrymderau
Calon bur dry gur yn gân
Gwlawiaf inau
Wawl fy enaid ar fy nhaith.

Y mae eisiau golau'r Bywyd
Beunydd ar eneidiau trist ;
O ! am ras i wasgar gwynfyd
Fel y dysgodd Iesu Grist.
Gwneud daioni
Ydyw'r unig ffordd i'r Nef.

Rhagfyr 11, 1907. ALVA.

HOLLALLUOG DAD, ni a ddymunwn atolwg, ar i Ti sancteiddio a chyfeirio ein calonau a'n cyrff yn ffordd dy ddeddfau ac yn ngweithredoedd dy orchymynion, fel trwy dy alluog amddiffyniad yn awr ac am byth, y caffom ein cadw yn gorff ac enaid. O Dduw, yn dy law Di y mae ein calonau a'n amserau. Helpia ni, atolwg, ar ddechreu'r flwyddyn newydd i wneuthur addunedau newyddion i'th wasanaethu Di yn ffyddlawn yn yspryd dy Fab Iesu Grist, fel y gallom orphen y gwaith a roddaist i ni i'w wneuthur, ac fel y byddo ein bywyd ni ar y ddaear yn ddechreu ar dragwyddoldeb dedwydd.—Amen.

NODION Y MIS.

APELIWN yn achlysurol am gyfraniadau i'n galluogi i ddanfon copi rhad o'r Ymofynydd i Ddarllenfeydd Cyhoeddus y wlad, neu i bersonau unigol lle y mae yn dderbyniol. Nid oes apêl wedi ei wueud er ys tro bellach, a chredwn ei bod yn adeg gyfleus yn awr i apelio at garedigrwydd ein cyfeillion yn mhob man. Danfonir allan bob mis nifer luosog o gopiau rhad, ond byddai yn dda genym pe yn ein gallu i ddyblu y rhif hwn. Yr Ymofynydd ydyw y cenhadwr ffyddlonaf feddwn, ac ofnwn fod yna glaerineb a difaterwch ar du llawer o honom fel nad ydyw yn cael y chwareu teg ddylai ar ein dwylaw. Hyd yn oed yn ein eglwysi Cymreig, sylwn mai y derbynwyr a'r darllenwyr ffyddlonaf ydyw yr aelodau ffyddlonaf yn ein eglwysi.

Derbynied ein cyfaill o Ogledd Cymru ein diolchgarwch diffuant am ei lythyr calonogol. Teifl allan awgrym ymarferol mewn perthynas i'r Undodiaid sydd ar wasgar, at y rhai y cyfeiriwyd genym mewn nodyn yn y rhifyn diweddaf. Dyfynwn ran o'i lythyr:—"Oes y mae angen Yr Ymofynydd. Edrychaf yn mlaen at ei dderbyn bob mis, fel y disgwyliaf fy swper heno. Amgauaf ddau swllt tuag at ei ledaeniad. Credaf hefyd y dylai y gwasgaredigion Undodaidd gael bod yn aelodau yn un o'r eglwysi Undodaidd. Nid eu bai hwy ydyw na buasent. Carwn gael gwybod trwy Yr Ymofynydd a oes gwrthwynebiad i hyny." Y mae yr awgrym yn un rhagorol iawn, ac yn werth ei gymeryd i fynu yn ddifrifol. Credaf y buasai pob gweinidog yn cymeradwyo yn wresog pan y dywedwn fod croesaw gwresog a chalonog i'r gwasgaredigion hyn i ymaelodi yn ein eglwysi.

Y mae casgliadau blynyddol y Gymdeithas Undodaidd Gymreig yn awr yn ddyledus, ac y mae yn ein bwriad i gychwyn ar gynllun mewn cysylltiad a'r ochr arianol, dry allan gobeithio yn llwyddianus. Y mae y Gymdeithas, yn mhlith pethau eraill, yn estyn ychydig gymorth bob blwyddyn i ychydig weinidogion sydd a'u cyflogau yn isel, ond nid yw yn helpu y rhai hyn yn agos fel y dylai. Credwn pe byddai sefyllfa cyflogau rhai o'n gweinidogion yn cael eu gosod gerbron ein eglwysi yn agored, y byddai er mantais i bawb yn gyffredinol. Y mae gweinidogion Undodaidd wedi bod yn ddistaw drwy'r blynyddau, ac ni ynganent air rhag ofn y drygai hyny yr eglwysi. Ond gwell gwynebu'r cwestiwn ar unwaith; ac os cawn ni gydweithrediad calon pawb o hyn hyd ein cyfarfodydd blynyddol yn yr haf, bydd yn hawdd cael gwelliant yn y cyfeiriad hwn. Os am rwystro'r duedd sydd yn ein gweinidogion ieuainc i groesi Clawdd Offa, dyma ffordd effeithiol i wneud hyny.

Mewn erthygl ddyddorol yn y *Dysgedydd* am Ionawr, ar Hen Gapel Neuaddlwyd, y mae gan y Parch. Gwilym Evans, Aberaeron,

nodyn ar waelod tudalen 6, yn darllen fel hyn :—"Ffaith ddyddorol teilwng o gofnodiad yw, i un o weinidogion Ciliau yn nghyd ag un o'i ddiaconiaid, wedi eu hargyhoeddi o anysgrythyroldeb syniadau Undodaidd, ymuno a'r eglwys yn Neuaddlwyd, yn adeg gweinidogaeth y Parch. W. Evans, a pharhasant yn aelodau ffyddlon yma hyd eu bedd."—Mae yr awgrym am anysgrythyroldeb syniadau Undodaidd yn wrthun. Y mae'r syniadau Undodaidd—cred yn Nuw, dyledswydd ac anfarwoldeb—wrth sail cred pob enwad; hwy yw yr aur pur; rhaid edrych am y coed, y gwair, y sofl i gyfeiriadau eraill.

Da genym glywed oddiwrth y brawd Dr. Tudor Jones, a'i fod yn hapus. Achwyn y mae ar hinsawdd New Zealand. Y mae ef a'i briod wedi bod yn wael eu hiechyd; ond er gwaetha'r oll y mae ei lafur gyda'r achos da yn llwyddo. Edrycha'n hiraethlawn yn ol i'r hen wlad, a digon hawdd casglu mai diwrnod hapus iddo fydd yr un a'i dwg yn ei ol. Anfona 'i gofion yn wresog at y frawdoliaeth; a gallwn feddwl fod gwyneb yr Ymofynydd yn un o'r rhai anwylaf yn ei olwg. Onid oes modd cael gair ganddo i'r Ymofynydd ar ryw bwnc New Zealand-aidd?

Y mae yn bleser digymysg genym uno gyda'r dorf i longyfarch golygydd y *Geninen* ar orpheniad ei bum mlynedd ar hugain o wasanaeth ardderchog i lenyddiaeth Cymru. Y mae Rhifyn Ionawr fel arfer yn rhagorol. Y mae'r *Geninen* ar y cyfan wedi cadw ei golofnau yn agored i bob sect a phlaid draethu eu cenadwri. Ni charem achwyn gan hyny i "Rywun" yn y Rhifyn hwn roddi cic wrth basio i'r Undodwr. Yr ydym bellach wedi hen ymgynefio ac ymgaledu, fel nad ydyw goruchwyliaeth y cicio yn effeithio arnom fel y bu. Y mae yn amlwg fod yr awdwr hwn a chywilydd arno gicio uwchben ei enw priodol. Nid arwydd ddrwg yw hyny. Y mae y *Geninen* er hyny o werth anmhrisiadwy i bob llenor Cymreig. Yn *Ngheninen Gwyl Dewi* yn mhlith ysgrifau bywgraffyddol ar enwogion Cymreig ymadawedig, hysbysir y bydd un ar y diweddar W. James, B.A., Y.H., Llandyssul.

Parhau y mae'r cyfaill Gwenogfryn gyda gwaith mawr ei fywyd, helpu i osod Cymru ar ei thraed trwy ddwyn allan gopiau cywir o'i llenyddiaeth hynaf, a theimla Cymru'n falch o'i wasanaeth, er yr ofnwn nad yw yn dangos ei chymeradwyaeth mewn ffordd ymarferol, trwy anfon peth help arianol. Bach dybiwn yw rhif y derbynwyr. "Llyvyr Du Kaer Vyrddin" ydyw'r gyfrol ddiweddaraf sydd wedi ei dwyn allan gan y golygydd, Dr. J. Gwenogfryn Evans, M.A., D.Litt. Deallwn mai hwn yw y llyfr Cymraeg hynaf sydd ar gael ac y mae Dr. Evans wedi treulio blynyddau rai i geisio sicrhau copi cywir o'r gwreiddiol. Cawn yma Ragymadrodd helaeth a gwerthfawr yn egluro hanes y llyfr a'i gynwysiad—rhyddiaeth, barddoniaeth a

chrefydd. Dyddorol iawn yw'r cyfeiriadau at grefydd. Un ffurf o grefydd fodolai'r pryd hwnw; yr enwadau, nid oeddynt eto wedi eu geni, gyda'u hymrafael a'u hymryson uwchben pynciau duwinyddol. Crefyddol yn hytrach na duwinyddol yw nodwedd y llyfr; ac felly'n wahanol i rediad cyffredin pregethau'r pwlpid ac awdlau'r eisteddfodau heddyw, y rhai nid ydynt yn dyfod i fyny a'r hyn olygir wrth lenyddiaeth. Damcaniaethol traddodiadol yw'r dduwinyddiaeth ac yn rhy fynych yn gwneuthur dyn yn *bankrupt* mewn dealldwriaeth, a gwaeth na'r cwbl yn "creu ymraniadau yn nghyd a phob math o anghariad." Cais oes y Llyfr Du oedd creu yspryd addoliad, bywyd glân, parch i ddefion yr eglwys, a'i chynaliaeth.

Carwn weled dyn yn marchog ei *hobby* yn ddoeth, mae'n sicr o lwyddiant; a gwella mae Gwenogfryn gyda phob cyfrol, ond y mae perygl gadael i'r un *hobby* farchog y dyn a'i yru rhagddo nes sychu ei waed a nychu ei enaid. Yr unig feddyginiaeth rhag peth o'r fath yw cymeryd dyddordeb yn mhethau byw bywyd. Hir oes i'r Doctor i wasanaethu ei gyff a'i genedl.

JAMES LLOYD JONES.

Da genym allu cyflwyno i ddarllenwyr Yr Ymofynydd ddarlun o'r diweddar James Lloyd Jones, neu "'Newyrth James," fel yr adnabyddid ef oreu gan gâr a chyfaill yn ei gartref a'i gymydogaeth, yn Hillsdale, Wisconsin. Cyfarfyddodd yr ymadawedig a'i ddiwedd mewn modd truenus iawn, ond yr oedd ei farwolaeth yn nodweddiadol o'i holl fywyd—marw wrth geisio achub eraill. Yr oedd Mr. Jones yn frawd i'r adnabyddus Jenkin Lloyd Jones, Chicago. Yn America y ganed James, ac ni wyddom iddo erioed sangu tir gwyllt Walia. Ffermwr ydoedd wrth ei alwedigaeth, tua 57 oed, a chymerai ddyddordeb arbenig yn mhob peth amaethyddol. Un diwrnod ger llaw ei gartref syrthiodd agerbeiriant trwm yn nghyd a pheiriant dyrnu trwy bont gan ladd dau gymydog ar unwaith. Rhuthrodd Mr. Jones i ganol y perygl er mwyn diffodd y tân, collodd ei droed a syrthiodd o ben y peiriant a thorodd ei glun. Ni feddyliwyd ar y dechreu fod y ddamwain yn ddrwg, ond yn mhen deuddydd a haner ehedodd yspryd y gwron at yr Hwn a'i rhoes. Cariad mwy na hwn nid oes gan neb, sef bod i un roi ei einioes dros ei gyfeillion. Yr oedd yn ddiwedd teilwng i fywyd defnyddiol a gwasanaethgar. Gadawodd briod a saith o blant, heblaw cymydogaeth eang, mewn galar mawr ar ei ol. Hydref y 23ain ydoedd dydd ei angladd, ac yr oedd y mwyaf welwyd yn y lle. Trodd tlawd a chyfoethog allan y dydd hwnw o fewn cylch deugain milldir er dangos eu parch i gymeriad mor ddisglaer a bywyd mor werthfawr. Diau y bydd yn dda gan gylch helaeth perthynasau yr ymadawedig yn mhlwyf Llandyssul weled ei ddarlun, ac efallai i ganfod ynddo debygrwydd i rai o'r tylwyth.

Cyrhaeddodd y newydd am ei farwolaeth yr ochr hon pan nad oedd

ein dagrau wedi eu sychu oddiar ein gruddiau ar ol ein James ninau ; ac fel hyn y mae y Parch. Jenkin Lloyd Jones yn ysgrifenu yn un o'i lythyrau :—

"Thank you for your word of sympathy, and you have already anticipated mine. It was a far cry from the hard-working farmer at Hillside, Wisconsin, to the diligent scholar in the valley of Wales,



but when it comes to the supreme moments it is easy to see how much they had in common. My brother James never dreamed of a ministry in connection with his own life. William James tried to project himself into other than ministerial lines at times, but both of them were ministers of the gospel of life by divine ordination, and both of them were brothers in the same church of God's out-of-doors —the open church, the church of sunlight and helpfulness."

HWNT I'R SYNWYRAU.

"*Ni welodd llygad ac ni chlywodd clust*," &c.—*1 Cor. 2 : 9.*

"And every common bush afire with God ;
But only he who sees takes off his shoes ;
The rest sit round it, plucking blackberries."—*E. B. Browning.*

Mae'r byd awgrymir gan Paul yn yr adnod fel un hwnt i gyraedd llygad a chlust a chalon yn wahanol i'r hwn awgrymir yn y penawd—Hwnt i'r Synwyrau.* Ysprydol, nid damcaniaethol yw'r byd sy gan Paul mewn golwg ; synwyriadol, canfyddiadol, awgrymiadol fydd prif gyfeiriad y llinellau sydd yn canlyn.

Y mae yna bump dolen yn cydio dyn a'i amgylchfyd—

PUMP PORTH SYNWYR

trwy y rhai y cedwir i fyny y gyfathrach rhyngddo ag ef—clywed, gweled, arogli, archwaethu, teimlo. Arweinia'r pump porth synwyr i bump byd sy bron yn hollol wahanol i'w gilydd. Y dall o'i enedigaeth, ni wyr efe ddim am liwiau ; a'r byddar, ni wyr yntau ddim am swn. Cyfyngedig hefyd yw maes gweithrediadau pob un o'r pump synwyr, ac fel cyfryngau dibynant oll ar gryniadau (*vibrations*). Yn y Kosmos, yn Natur, sef y Byd allanol, nid oes dim ond cryniadau ; nid oes yno ddim na swn, na lliw, na gwres, &c. Cyn bod swn rhaid wrth glust, cyn bod lliw rhaid wrth lygad, &c. ; ac yn mhellach eto, dealler nad y glust sydd yn clywed, nad y llygad sydd yn gweled, &c. Nid yw clust a llygad ond y cyfryngau neu'r offerynau i glywed a gweled. Yn ngeiriau yr hen athronydd Epicharmus,

Y meddwl wel a'r meddwl hefyd glyw,
Am bob peth arall, dall a byddar yw.

Hyny yw, rhaid olrhain a hebrwng yr oll yn ol at y "Fi," canolbwynt y cwbl, ie canolbwynt ein bodolaeth, y tu cefn i'r synwyrau, tu cefn i bob peth.

Goddefer i ni egluro

MAES Y CLYWED.

Meddylier am danau telyn. Dibyna'r amrywiol seiniau ar wahanol hyd y tanau. Po hwyaf y tant, dyfnaf ac iselaf y swn. Wrth daro'r tant, fe berir iddo grynu, a theflir yr awyr i donau. Po hwyaf hyd y tant, lleiaf i gyd rif ei gryniadau ; a pho fyraf y tant, lluosocaf y cryniadau. Ar dywydd tawel, gyda hin deg, 'chlywn ni ddim o wifren y pellebyr (*telegraph*) yn chwareu yn y gwynt. Rhaid iddo chwareu neu grynu unwaith ar bymtheg mewn eiliad cyn y daw i afael y clyw, ac ar hyny ni fydd ond swn trymaidd distaw ; ond gydag awel gryfach a chryniadau amlach daw'r swn yn grasach ac yn uwch. Po amlaf y cryniadau, uwchaf y swn, Doh, re, Mi, ffa, &c. yn uwch ac yn uwch o hyd. Y mae'r "ffa" yn amlach ei chryniadau ac yn uwch ei swn na'r "Mi," a "re" yn is. Ceir rhai dynion na chlywant sain pedwar wythawd uwchlaw y Mi, neu'r E ar ganol y *piano*, tra y ceir eraill a glywant ddau wythawd arall yn uwch. Golyga hyny fod maes gweithrediadau'r clust i rai yn llawer eangach nag yw i eraill. Dyma engraifft darawiadol. Yr oedd Proffeswr Tyndall a chyfaill un tro ar yr Alps,

* Y mae i'r gair Synwyr ddau ystyr, ond bydd yn hawdd i'r darllenydd ddeall yn mha ystyr y defnyddir ef yma.

lle y gwelent y borfa yn dryfrith gan bryfaid bychain, a dywedai Tyndall ei fod yn clywed eu swn megys yn rhwygo'r awyr, tra y gorfu i'w gyfaill ddywedyd nad oedd yn clywed dim swn o gwbl. Tebyg ddigon fod cân beraidd y pryfaid hyn bron ar linell derfyn gallu clywedigol dyn. Yn ol Helmholz, cyrhaeddai y llinell hono —lle mae'r sain uwchaf clywadwy i ddyn—pan fo'r cryniadau yn 32·000* mewn eiliad. Y mae maes gweithrediadau'r clust felly yn dechreu gydag 16 ar y naill ben ac yn terfynu gyda 32·000; o'r ddau tu i hyny mae'r oll yn ddistaw fel y bedd *i ni* —I NI; ond ffolineb fyddai meddwl fod terfynau'r clywadwy wedi eu rhwymo'n dragwyddol wrth yr hyn sy bosibl i glust dyn. Na, nid oes amheuaeth nad yw'r holl gysawdiau† yn seingar gan beroriaeth y mae clust dyn yn hollol fyddar iddo.

Awn rhagom. Parhaer i luosogi'r cryniadau, a rhaid yw parhau'n hir, a gosod ein dychymyg ar ei eithaf er mwyn deall; ond pan ddeuwn at y miliwn mewn eiliad, cyrhaeddwn diriogaeth newydd, sef

Maes y Teimlad.

Cenfydd y llaw arwyddion *gwres*. Cyflymer eto, ac eto, ac aiff y gwres yn fwy ac yn fwy o hyd, ac yn y diwedd yn angherddol ac yn annioddefol. Ar ol cynyddu'r cryniadau i'r degau, y cannoedd, y miloedd, ie 'r miliynau o filiynau, fe bery'r gwres i gynyddu o hyd. Pan y deuwn at 428 o filiynau o filiynau, byddwn o hyd ar faes y teimlad; ond erbyn hyn bydd byd newydd yn tori arnom, sef

Maes y Gweled.

Tra'r cyflymdra yn parhau, daw'r amser i'r gwres ddarfod a diflanu i ni, fel y gwnaeth y swn. Try'r lliw coch yn lliw *orange* i'r llygad, yna'n lliw melyn, wedi hyny'n lliw gwyrdd, yna'n las, yna'n lliw *indigo*, ac yn lliw *violet*, y lliw olaf ar y *Solar Spectrum*. Pan eir hwnt i'r 727 miliwn o filiynau mewn eiliad, eir allan o gyraedd y llygad, ac yna bydd tywyllwch—nos fel yn y dechreu. Byddwn allan o gyrhaedd pob synwyr o eiddo dyn, fel na ellir tori byth mwy ar y tawelwch. Nad faint gynyddo'r cyflymdra, ni ddaw byth mwy o fewn cyrhaedd yr un o synwyrau dyn. Camsyniad, fodd bynag, fyddai tybied fod terfynau'r bydoedd hyn yn cael eu cyfyngu o fewn yr hyn sy bosibl i synwyrau dyn.‡

Fe welir oddiwrth hyn fod y galluoedd synwyrol oll *yn gyfyngedig*, fod i'r eangaf o honynt ei derfynau; eu bod hefyd yn amrywio gyda gwahanol ddynion. Dyma engraifft ddyddorol arall oddiar faes y gweled. Pan ddywedodd yr Indiad gynt iddo weled un seren yn llyncu seren arall; esponiad y seryddwr oedd, iddo weled diffyg (*eclipse*) ar un o leuadau'r blaned Iau; hyny yw, fe welodd Iau yn myned rhyngddo ag un o'r lleuadau. Yn awr, fel y mae'n hysbys i'r deallus, y mae holl leuadau'r blaned Iau yn anweledig hollol i lygad noeth y rhan amlaf o ddynion.

Dywedir mai y synwyr teimladol sydd wrth wraidd yr oll o'r synwyrau; hyny yw, math o deimlad yw'r clywed, y gweled, &c.; yr hyn feallai a gyfrif am y ffaith hynod fod aml i ddyn oedd yn amddifad o un neu ragor o'r synwyrau wedi *gallu cryfhau* 'r synwyrau oedd ar ol—fel math o *compensation* onide? ac yn fynych felly wedi enill gradd o enwogrwydd iddo ei hunan. Rhoddwn engreifftiau. Dyna Nicholas Saunderson (1682-1739); collodd ei olygon drwy'r frech wen, pan yn ddeuddeg mis oed; ac eto cyrhaeddodd enwogrwydd fel Proffeswr mewn Mesuroniaeth yn Nghaergrawnt. A dyna

---

* Yn ol erthygl yn yr Ymofynydd, 1875, t. 161, 40·000.

† "Peroriaeth y Cysawdiau," chwedl Cernyw Williams; *the music of the spheres*.

‡ Momerie—Immortality, p. 90, 6d. ed.

Harriet Martineau (1802-76) chwaer James, yr oedd yn ddiffygiol iawn, er nad yn hollol amddifad, o'r gallu i glywed a gweled ac archwaethu, er hyny i gyd daeth yn un o lenorion penaf ei hoes. Collodd Henry Fawcett ei olygon yn ddyn ieuanc, pan allan yn saethu, ond llwyddodd trwy ymdrech a dyfalbarhad, i sicrhau'r safle o *Postmaster General* yn ngweinyddiaeth Mr. Gladstone yn 1880. Ond engraifft ryfeddach fyth o un yn gorchfygu anhawsderau o dan anfanteision, yw Laura Bridgman, yr hon nid oedd i bob ymddangosiad allanol ond talp o gnawd difywyd, amddifad o bob peth braidd a briodolir—mewn ystyr feddyliol—i ddynoliaeth. Ni fedrai weled, na chlywed, nac arogli, nac archwaethu. Y teimlad oedd yr unig synwyr oedd ganddi. Pwy a ddichon ddychymygu pa fath fyd fuasai i hon pe cawsai dreulio ei bywyd allan yn y cyflwr hwnw. Yn ffodus iddi hi, cymerodd y Dr. Howe, y meddyg enwog, ddyddordeb neillduol ynddi, ac ymosododd o ddifrif i geisio cael allan beth allai wneuthur o honi. Treuliodd y doctor flynyddoedd wrth y gwaith. Nid oedd ganddo amheuaeth nad oedd yna enaid yn guddiedig o dan y talp o gnawd, pe gallai ond dyfod o hyd iddo. Sut i gael trwydded (*passport*) ato oedd y pwnc dyrys. Ar ol hir amser, ar ol treio llawer ffordd, a chyda llawer iawn o amynedd, llwyddodd i osod yr *un* pellebyr, yr unig *line of communication* ar waith, ac i ddeffroi'r ymwybyddiaeth, ac yn raddol i ddadblygu'r meddwl, a thrwy'r unig borth agored, i ddyfod o hyd i arwyddion digonol o bresenoldeb enaid fel eiddo rhywun arall.*

Nis gwyddom beth oedd syniad Laura Bridgman am y byd bach yr oedd hi'n byw ynddo; pa un a amheuai hi bob peth ond yr hyn a *deimlai*. Nid oedd bosibl fod ganddi yr un syniad cywir am swn, am liw, am arogl, am archwaeth, pethau allan o gyrhaedd ei phrofiad personol. Pa fath ddesgrifiad y gellid disgwyl iddi hi roi o'r naill a'r llall? Awgrymiadol yw geiriau y dyn dall o Bethsaida ar ol cael ei olwg, "Yr wyf yn gweled dynion megys prenau yn rhodio."

Mae tuedd rhy gyffredin yn mhlith dynion i fesur gwybodaeth pawb eraill wrth fesur eu profiad eu hunain, ac i gredu y dylai pawb dderbyn pob peth yn ol eu llinyn mesur hwy. Dyna beth sydd wedi bod wrth wraidd

ERLEDIGAETHAU'R OESAU,

ac sydd yn parhau fwy neu lai i fod ar ffordd cynydd crefydd a gwybodaeth hyd heddyw. Nid dim ond yr eglwys sydd wedi erlid; fe wnaeth hi ei rhan, mae'n wir,—ar broffwydi, apostolion, merthyron, "o waed Abel gyfiawn hyd waed Zacharias fab Barachias," ie, ac yn ddiweddarach; ond y mae'r gwyddonwyr hefyd,—yr *easy chair philosophers*, fel y galwai Stanley hwynt—wedi bod wrth yr un gwaith, ac wedi amheu gwirionedd y dieithr a'r newydd, yn unig am ei fod yn newydd iddynt hwy.

Mae'r esponiad, feallai, yn y ffaith mai'r synwyrau yw cyfryngau cyffredin gwybodaeth, yr hyn sydd yn eu gwneuthur yn naturiol i ddyn wrandaw eu tystiolaeth, ac yn enwedig tystiolaeth ei synwyrau ei hun, o flaen un dystiolaeth arall. *Seeing is believing*, a'r casgliad yn rhy gyffredin yw fod ein gweled ni cystal a gweled rhywun arall—ac yn ei gynwys. Dywed Goldwin Smith ein bod yn byw mewn byd ag y gwyddom cyn lleied am dano ag y gwyr y wahadden am fyd y gweled. Paham gan hyny yr honwn gymaint? Choelia i ddim ond a wela i, meddai'r wahadden; ac ebe'r dyn, mor naturiol a hithau, Choelia i ddim ond a ddaw trwy gyfrwng clust a llygad a llaw, &c. Choelia i ddim, ebe'r dyn du, gyda chrechwen o

* Gwelir manylion pellach yn *Yr Athraw*, 1867.

amheuaeth ar ei wyneb, pan welodd ei feistr yn cyfeirio ei bellwelyr at y wybren, choelia i ddim y gwel e fwy na minau. Y mae'r wybren oll mor agored i'm llygaid noeth i ag ydyw iddo ef a'i bellwelyr. Ebe Tomos, Na na i, chreda i ddim, "oni chaf weled yn ei ddwylaw ef ol yr hoelion, a dodi fy mys yn ol yr hoelion, a dodi fy llaw yn ei ystlys ef." Ebe'r hen wraig wrth ei mab oedd newydd ddychwelyd o'r mor, Beth oedd y peth rhyfeddaf welaist ti? Ebe yntau, Am wn i nad y peth rhyfeddaf welais i oedd gweled pysgod yn hedfan.—Taw a dy lol, a phaid ceisio twyllo dy hen fam.—Wel, dyna beth rhyfedd arall a welais. Un bore, yn y Mor Coch, wrth godi yr angor, sylwyd ei bod yn drymach nag arfer, a gorfuwyd cael help, ac er syndod i bawb daeth olwyn un o gerbydau Pharaoh i fyny gyda hi; ac meddai'r hen wraig, Mi alla i gredu hyna, y mae son am gerbydau Pharaoh yn y Beibl!

Nid diben y llinellau hyn yw dibrisio'r synwyrau. Ni fwriedir dim mor ynfyd. Eu hamcan yw anog i fwy o wyleidd-dra. Y mae'r synwyrau yn werthfawr hwnt i fesur, ond dylid cofio fod iddynt eu terfynau, nad ydynt yn anffaeledig; ac nad yw dyn, eu perchen, ddim yn anffaeledig chwaith, er ei fod yn rhy fynych wedi actio yn y cymeriad hwnw.

A little knowledge is a dangerous thing,
Drink deep or taste not the Pierian spring;
For shallow draughts intoxicate the brain,
And drinking largely sobers us again.
Pope.

Mae'n amlwg i bawb y posibilrwydd o allu

ESTYN AC EANGU

maes gweithrediadau'r synwyrau. Gwyr yr hen wr yr help a gaiff o wisgo ei spectol; a gwyr y rhan amlaf erbyn heddyw fel y mae Byd y Gweled yn cael ei eangu, trwy help y pellwelyr yn nghyfeiriad yr anfeidrol fawr; a thrwy help y chwyddwydr yn nghyfeiriad yr anfeidrol fychan; ac yn rhyfeddach fyth fel mae'r photographydd yn cymeryd llun gwrthrychau—y ser, er engraifft,—sydd hwnt i gyraedd y pellwelyr cryfaf; ac yn ol tystiolaeth rhai, yn gallu tynu a dangos llun ysprydoedd dynion wedi marw!

Ychydig wyr neb beth sy'n guddiedig yn mhlygion y dyfodol. Gwneir rhywbeth yn mhob oes i'w dadorchuddio. Nid yw dadguddiadau'r blynyddoedd diweddar ond awgrym proffwydiaethol o rai eraill eto i ddod. Ni freuddwydiai neb yn 1800 am y telegraph, y photograph, y phonograph, y gramophon, yr X rays, yr N rays, yr Herzian rays, radium, &c., gyda'u posibiliadau anherfynol; ac nid oes neb heddyw a ddichon ddychymygu pa bethau rhyfeddol a ddygir i'r golwg eto yn nghwrs blynyddoedd y dyfodol. Safwn, fel y dywedodd Newton am dano ei hunan, megis ar y traeth, ac os ydym wedi dod o hyd i rai pethau tlws a gwerthfawr, mae môr mawr gwybodaeth o'n blaen heb ei archwilio.

Hyd yma y mae ein sylwadau, gan mwyaf, wedi dal cysylltiad mwy neu lai agos a Maesydd y Synwyrau, ac mae perygl gwireddu'r ddiareb ac i'r Porth fyned yn fwy na'r Eglwys,—ond yr ydym am arwain meddwl y darllenydd yn awr at y Dirgelwch hwnw sydd Hwnt i'r Synwyrau. Y mae yna Rywbeth yn bod, rhyw Allu cyfriniol, rhyw ddylanwad dirgel, sylweddol, sydd yn gweithio yn a thrwy a thu cefn i'r holl allanolion y dwg ein synwyrau ni i gyffyrddiad â hwy; rhywbeth nas gellir dweyd fod ein hymwybyddiaeth o hono yn gynyrch y synwyrau yn unig. Mae'n arwain ac yn rhoddi cyfeiriad i bobpeth, yn bresenol yn y Ni ac yn yr Arall oll, sydd y tu allan i'r Ni. Ydyw, y mae oddifewn i ni ac yn Index i'r cyfanfyd oll. Mae'n amlwg fod gan ddyn a'i amgylchfyd lawer i'w wneud a'u gilydd. Er engraifft,

ni fuasai gan ddyn lygad oni buasai fod haul, na chlust oni buasai fod awyr. Holwn, Beth yw'r dirgelwch hwnw sydd yn achos hyn oll, sydd yn cyfeirio nodwydd cwmpawd y morwr at y gogledd, y baban at y fron, yr hwyaden* at y dwfr, Columbus at yr Amerig,† a dyn at y Cyflwr dyfodol? Amlyga ei hun yn mhob peth, ond nid pawb a'i gwel. I Peter Bell nid oedd y briallu ond briallu melyn yn unig; ond i Tennyson awgryment holl Ddirgelwch mawr y bydysawd, a chredai efe, pe gallai eu hesponio, y gallai esponio pobpeth. Credai'r Iuddew gynt y genid pob dyn i'r byd gyda dau angel yn gweini arno; credai Socrates fod ganddo ef angel gwarcheidiol bob amser ar bwys i'w rybuddio a'i gynghori. Tebyg mai'r un peth oeddynt a'r peth rhyfedd hwnw y teimlodd Theodore Parker yn blentyn bach yn dywedyd "Paid" wrtho, pan gododd ei law fach i fyny i daro'r cragengranc (*tortoise*) yn yr ardd. Yr oedd Helen Keller, fel Laura Bridgman, yn amddifad o bob synwyr ond y teimlad, eto'r oedd yn gyfarwydd a'r dirgelwch hwn er yn blentyn, ac wedi ei deimlo yn llefaru hedd i'w chalon lawer gwaith, er na ddysgodd yr un enw arno hyd rai blynyddoedd yn ddiweddarach. Yr un hefyd yw'r "llais" yn y llinellau canlynol,—

Llais distaw main yn sisial sydd
O fewn fy mynwes i,
Os trystiog, digllawn fydd fy ngair,
Fe gefna'r cyfaill cu;
Y llais tufewn, y llais tufewn,
O, parchwn hwn bob un;
Rhybuddio mae rhag pob rhyw
ddrwg—
Llais Duw yn enaid dyn!
Emynau ac Odlau, 81.

Llais *Duw* yn enaid dyn! Llais tufewn o leiaf yw; ie, llais yn llefaru *ynom*, ac eto'n ymddangos yn rhywfodd fel pe heb fod o honom. Pan fyddwn ambell bryd ar fedr cychwyn ar lwybr neillduol o ymddygiad—llwybr anghyfreithlawn—clywn y llais megys yn croesi ein llwybr, yn rhybuddio, ac yn llefaru gyda'r fath awdurdod moesol fel y gorfodir ni i wrandaw arno a'i gydnabod. Er nad mewn ystyr ond megys llef ddistaw fain, fe'i sylweddolir fel

Llais y Rhaid Tragwyddol,

yr *Everlasting Ought*, llais gorchymynol y bydysawd, yn llefaru dyledswydd, yn dadleu o blaid cyfiawnder, a'r dadleu hyny'n ymddangos fel rhywbeth ar wahan i ni ein hunain, ac yn llefaru gydag Awdurdod a gydnabyddwn fel un uniawn a chyfiawn, —Rhywbeth nad yw na llafaredig nac ysgrifenedig—yn dylifo i'n meddwl oddiwrth Feddwl allanol, uwch a doethach a gwell na ni ein hunain; a phan fo'n gorchymyn dyledswydd, yn dywedyd wrthym, nid yn unig y dylem ei wneuthur, ond hefyd yn ein helpio i wneuthur. Ar hyny fe wawria arnom, Cyfaill a Char sydd yma, ac ni phetruswn mwy gydnabod a chyffesu fod llais Duw yn llefaru yn enaid dyn. Byddwn wedi dysgu gwers gyntaf crefydd.‡

Beth fynwn ni fwy, beth fynwn ni well, na'r gallu i sylweddoli hynyma, fod Duw'r nefoedd yn Dad ini, yn ein caru, yn ewyllysio'n dda i ni; bob amser yn barod ac ar bwys i'n harwain a'n cyfarwyddo, i'n helpu a'n cynorthwyo, i'n dyddanu a'n cysuro? Onid dyna addysg yr Athraw? Gawn ni yn yspryd Iesu wrandaw

---

* Hyd y nod pan y megir hi gan yr iar.

† Am unwaith derbyniodd Pantycelyn ei ysprydoliaeth oddiwrth Columbus,

'Rwyf yn dechreu teimlo eisoes
Beraroglau'r gwledydd draw,
Gyda'r awel ber yn hedeg—
Diau fod y wlad gerllaw.

‡ Know Thyself.—H. S. Solly.

arno, ufuddhau iddo, hyderu ac ymddiried ynddo?

Dydi enaid blin a lluddedig, trist a galarus, dos ato yn hyf,

Dwed wrtho dy gwyn mae yn gwrandaw,

Can's Yspryd at yspryd a ddaw;
Nês ydyw Efe nag anadlu,
Agosach na llygad na llaw.
—*Tennyson.*

R.J.J.

NEGES Y CYMRO.

Gwyddom i gyd natur y Cymro; y mae anian yr hen Iberiad prudd barddonol yn aros ynddo o hyd; y mae'r Brython a'r Celt—pobl gryfion ymarferol—y maent hwythau hefyd o'i fewn.

Y mae bywyd y mynyddau wedi cryfhau y Cymro, ac hefyd wedi ei wneud yn nwyfus a rhamantus; y mae cysgodion prudd glynoedd Cymru hefyd wedi taflu eu tywyllwch ar ei enaid a'i wneud yn brudd a llwfr weithiau. Plentyn y mynyddoedd a'r dyffrynoedd yw ef, ac nid oes dim gwell ganddo na golwg ar fryniau ei wlad, a char ganiadau y bugeiliaid wyliant y praidd ar fil o fynyddoedd,—

Aros mae'r mynyddau mawr,
Rhuo drostynt mae y gwynt,
Eto clywaf gyda'r wawr
Gân bugeiliaid megys cynt.

Ac onid ar ben y mynydd y ceir gweledigaeth yn oreu? Mor ddibwys, mor fychan, mor ddarfodedig yw pethau bach y byd islaw o

SAFLE OESOL PEN Y MYNYDD.

Yr aur a'r arian ymaith a hwy. Y mae'r Cymro yn gwybod am rywbeth gwell, mwy parhaus, mwy yspryd ol, pan yn aros ar un o fynyddoedd Cymru.

Pen y mynydd yw'r lle agosaf i'r nefoedd. Ac y mae'r gwir Gymro wedi'r oll yn treulio llawer o'i amser ar ben y mynydd, ac o'i safle hon ar ben y mynydd y mae i draethu ei neges heddyw i genhedloedd y byd. Credaf fod Cymru'n dyheu am y bywyd uwch; fod y wlad yn effro heddyw fel cenedl yn cydgrefu am rywbeth gwell nag aur a gwag bleserau'r byd.

Yn amser Arthur fawr bu Cymru'n effro; yr oedd yspryd Arthur wedi meddianu'r genedl, am hyny gweithredai fel un gwr. Y mae oes aur yn hanes pob cenedl. Oes aur Cymru oedd amser Arthur—yr oes a ddeil Cymru fel *ideal* o flaen ei llygaid; mae'n bosibl nad oedd yr oes ei hun yn gwbl fel y darlunir hi; ond mae y delfryd—yr *ideal* yn aros. Ac y mae'r un peth yn wir am arwr Cymru fel am arwr pob gwlad. Yr *ideal* a ddeil sydd bwysig. Nid brenin yn caru aur a chyfoeth oedd Arthur, yr oedd ef uwchlaw pethau gwael materol—doedd fawr o'r American, na'r Sais ychwaith, yn Arthur Fawr. Y mae addoliad y llo aur mor boblogaidd yn y byd heddyw ag y bu erioed, er fod afiechyd wedi cymeryd gafael yn llo aur America yn ddiweddar.

Yr wyf am i chwi wrando

HEN CHWEDL GYMREIG

am Arthur Fawr, y mae'r rhan fwyaf o honoch wedi ei chlywed, ac fe ddylai fod ar gof pawb o blant

Cymru. Dyma hi:—"Yr oedd Cymro unwaith yn cerdded dros bont Llunden, a ffon gollen yn ei law. Yr oedd wedi bod yn gyru gwartheg o Gymru i'r brifddinas, ac wedi eu gwerthu am bris uchel; felly roedd ganddo ddigon o aur yn ei boced; a chyda ffon gollen yn ei law ac arian ddigon yn ei logell teimlai yn hapus ddigon. Yr amser hwnw yr oedd siopau lawer ar bont Llunden, a safodd y Cymro gyferbyn a ffenestr un o'r siopau hyn.

Yn fuan iawn sylwodd fod yna ddyn yn edrych yn ddyfal a manwl ar ei ffon. O'r diwedd daeth y dyn ato a gofynodd i'r Cymro o ba le yr oedd yn dod.

"Rwyf yn dod o'm gwlad fy hun," atebodd y Cymro dipyn yn gwta.

"Peidiwch a'm camddeall," ebe'r gwr dieithr, "os atebwch fy ngofyniadau a chymeryd fy nghyngor, cewch fwy o fudd nag yr ydych wedi feddwl. Ydych chwi 'n cofio lle torasoch y ffon yna? Os medrwch gofio'r lle, a'm harwain i'r fan, rhoddaf gyfoeth lawer yn eich meddiant."

Deallodd y Cymro'n awr mai swynwr oedd y dyn; ac nis gwyddai'n iawn pa beth i'w wneud. Ar un ochr yr oedd y cyfoeth yn ei demtio: o'r ochr arall gwyddai mai oddiwrth y Gwr Du yr oedd y swynwr wedi cael ei wybodaeth. Ond, o'r diwedd addawodd fynd i ddangos i'r dewin y fan lle torasai'r ffon gollen.

Cerddodd y Cymro a'r dewin gyda'u gilydd i Gymru. O'r diwedd daethant i Graig y Dinas, yn agos i Bont Nedd Fechan, ac yno cyfeiriodd y Cymro at foncyff hen bren collen, gan ddweyd—"Dyna'r fan lle torais i'r ffon."

"Gadewch i ni gloddio," meddai'r swynwr.

A chloddio a wnaethant nes dod at gareg fawr lydan. Codwyd y maen, a gwelsant risiau yn myned i lawr. Aeth i mewn hyd y grisiau, ac yna drwy rodfa gul nes dod at ddrws. "Ydych chwi'n ddewr?" meddai'r swynwr. "Ddewch chwi mewn gyda mi?" "Gwnaf," meddai'r Cymro, "gan fod ei gywreindeb yn gryfach na'i ofn. Pan agorwyd y drws gwelsant ogof fawr yn agor o'u blaen. Yr oedd goleu coch egwan yn yr ogof, ond gallent weld pob peth yn glir. Y peth cyntaf y daethant ato oedd cloch. "Paid cyffwrdd a'r gloch," meddai'r dewin, "neu mi fydd ar ben arnom ein dau." Fel yr oeddynt yn myned yn eu blaen, gwelodd y Cymro nad oedd y lle yn wag. Yr oedd yno filwyr yn gorwedd ac yn cysgu, filoedd o honynt, mor bell ag y gallai'r llygad ganfod. Yr oedd gwisg o ddur yn disgleirio ar bob milwr, yr oedd pob un ag helm glaer ar ei ben, pob un a'i darian loew yn ei law, a phob un a'i waewffon a'i bôn yn y ddaear gerllaw iddo. Ac yr oeddynt oll yn cysgu. Yn nghanol yr ogof yr oedd bwrdd crwn o gwmpas yr hwn yr eisteddai rhyfelwyr, ac yr oedd eu gwynebau urddasol a'u gwisgoedd gorwych yn ddigon prawf nad gwyr cyffredin oeddynt hwy. Ac yr oedd pob un o honynt a'i ên ar ei fynwes yn cysgu'n dawel.

Ar orsedd o aur y tu ol i'r bwrdd yr eisteddai brenin o faintioli cawr, a gwedd fawreddog arno. Yn ei law yr oedd cledd anferth o faint, gyda gwain a llafn o aur, a meini gwerthfawr yn disgleirio arnynt. Ar ei ben yr oedd coron aur, a'r gemau arni yn disgleirio a goleuo fel fflamau o dân. Yr oedd ei lygaid yntau hefyd yn nghauad, ac wedi eu selio gan gwsg.

"Ydynt hwy oll yn cysgu," gofynai y Cymro, oblegid braidd y coeliai ei lygaid ei hun.

"Ydynt, un ac oll o honynt," atebai dewin, "ond os cyffyrddwch a'r gloch acw dihunant bob un."

"Er's pa hyd y maent wedi bod yn cysgu?"

"Am dros fil o flynyddau."

"A phwy ydynt?"

"Milwyr Arthur yn aros i ddisgwyl yr amser pan y gwnant ddistrywio holl elynion y Cymry ac adfeddianu Ynys Prydain, gan sefydlu eu brenin unwaith eto yn Nghaer Lleon."

"A phwy yw y rhai yna sydd yn eistedd oddiamgylch y bwrdd?"

"O, marchogion Arthur, Owain ap Urien, Cai ap Cynyn, Gwalchmai ap Gwyar, Peredur ap Efrawc, Geraint ap Erbir, Trystan ap March, Bedwyr ap Bedrawd, Cilhwch ap Celyddon, Edeyrn ap Nudd, Cynon ap Clydno, —"Ac ar yr orsedd aur," torai'r Cymro i mewn.—"Wele Arthur ei hun, a'i gleddyf caledfwlch yn ei law," atebai'r dewin.

Yr oedd y dewin erbyn hyn wedi blino ar ofyniadau'r Cymro, a brysiodd at garnedd o aur melyn ar lawr yr ogof. Cymerodd gymaint o'r aur ag y gallai ei gludo, ac anogodd ei gydymaith i wneud yr un modd.

"Y mae'n amser i ni fyned," meddai'r dewin; ac arweiniodd y ffordd tua'r drws. Yr oedd y Cymro wedi ei lwyr feddianu gan olygfa'r milwyr dirif yn eu gwisgoedd gloew o ddur—a'r oll yn cysgu. "Fel yr hoffwn eu gweld i gyd yn deffro," meddai'r Cymro wrtho ei hun, "mi gyffyrddaf a'r gloch—rhaid i mi gael eu gweld yn codi o'u cwsg." Gynted ag y daethant at y gloch tarawodd hi nes iddi adseinio drwy'r lle i gyd, a chynted ag y canodd y gloch, wele'r miloedd milwyr yn neidio ar eu traed nes i'r ddaear grynu o danynt, a'r ogof adseinio gan swn tincian eu harfau dur. A dyrchafodd llais enfawr yn eu mysg:—"Pwy ganodd y gloch? Ydyw'r dydd eto wedi gwawrio?" Gymaint oedd dychryn y swynwr fel y crynai fel deilen yn y gwynt, a gwaeddodd mewn ateb, "Na, nid yw'r dydd eto wedi gwawrio, cysgwch yn mlaen." Yr oedd y llu anferth yn ymsymud, a dallid llygaid y Cymro gan oleuni claer yr arfau dur ddisgleiriant yn yr ogof fel myrdd o fflamau tân.

"Arthur," meddai'r llais eto, "deffro, mae'r gloch wedi canu, mae'r dydd wedi tori. Deffro, Arthur Fawr." "Na," meddai'r swynwr, "y mae eto'n nos, cwsg yn dy flaen, Arthur Fawr."

Clybuwyd swn o'r orsedd. Yr oedd Arthur yn sefyll, ac yr oedd y gemau yn ei goron yn disgleirio fel ser uwchben y dyrfa ddiderfyn. Yr oedd ei lais yn nerthol a melus, fel swn dyfroedd lawer, a dywedodd, "Fy milwyr, nid yw'r dydd eto wedi dod i'r Eryr Du a'r Eryr Aur fyned i ryfel a'u gilydd. *Rhywun yn chwilio am aur yn unig ganodd y gloch. Cysgwch yn dawel, fy milwyr, nid yw bore Cymru eto wedi gwawrio.*"

Daeth swn heddychol dros yr ogof, swn fel murmur mor yn y pellder, ac ar amrant llygad yr oedd pawb drwy'r lle unwaith eto'n cysgu. Aeth y Cymro a'r dewin ymaith, ond ni chaed gafael yn y fan byth er hyny.

Y mae swn deffroad (cenedlaethol) wedi bod yn Nghymru lawer gwaith; ond bob tro cyn toriad y wawr. Y mae'r cloddio am lo yn Morganwg wedi creu twrf mawr yn ein gwlad; ac y mae son am chwilio aur yn nglogwyni Sir Feirionydd ac yn nyffrynoedd Sir Fynwy; ond ni ddeffry Arthur i gynorthwyo ei wlad i hel cyfoeth; pan ddihuna Arthur nid aur nac arian a rydd efe i genedl y Cymry, ond yspryd dewrder, annibyniaeth, dysg a moes a chrefydd. Pan ddechreuo Cymru chwilio am y bywyd uwch, yna gellir canu'r gloch, a gwaeddi ar Arthur,—Deffro, mae'n Ddydd.

Wrth gwrs, nid yw'r chwedl am Arthur a'i filwyr yn yr ogo ond dammeg; ond y mae gwirionedd mawr yn fynych yn llechu mewn chwedl, fel y perl o fewn y gragen.

DDAW ARTHUR A'I FILWYR BYTH YN OL YN Y CNAWD,—

ond credaf fod yspryd Arthur ac yspryd ei farchogion yn dihuno—yr yspryd hwnw sydd wedi rhoddi parch ac urddas i Gymru Fu; yr yspryd rodd y Mabinogion i'r canol-oesoedd, yr yspryd gododd *ferch* i sefyllfa o barch addolgar yn yr oesoedd pan nad edrychid ar fenyw ond bod iswasanaethgar i'r dyn, yr yspryd a lefeiniodd Ewrob yn nyddiau blin rhyfeloedd a thywallt gwaed, yr un a rodd i Gymru'r hawl o'i galw yn

Wlad beirdd a chantorion,
Enwogion o fri, &c.

Ydyw, y mae'r bywyd hwnw a drigai yn ein cenedl yn fwy amlwg heddyw nag y bu er dyddiau Arthur Fawr; a chlywaf lais Cymru'n galw, a llais Arthur yn ateb, ac adsain o'r mynyddau'n gwrthateb—"Deffro! mae'n ddydd!"

Mae eisieu dysgu i'r cenhedloedd fod rhywbeth mewn bywyd sydd werthfawrocach nag aur; wnelai gwers ddim drwg i'r America—gwlad yr *Almighty Dollar*. Mae eisieu dangos fod rhywbeth yn y byd sydd uwch na phleserau materol; wnai gwers ddim niwed i Loegr, a Ffrainc ac Itali. Y mae eisieu dangos i'r cenhedloedd beth all gwerin syml, gall, wneud gydag addysg a chrefydd; y mae mantais gan Gymru i ddysgu hyny o beth i genhedloedd y byd. Mae eisieu dysgu i wledydd y ddaear fod cleddyf yr yspryd yn fwy nerthol a miniog na'r cleddyf dur; fod llais gwerin bur, oleuedig a chrefyddol, yn fwy effeithiol na rhu magnelau ar faes y gwaed. Dangosodd Cymru Fu

FOD TANAU TELYN YN FWY EU DYLANWAD NA LLINYNAU'R BWA,

a gall Cymru Sydd brofi fod swn cân a moliant ei gwerin fechan yn fwy o allu yn y byd na swn cyflegrau lawer.

Y mae eisieu dysgu sobrwydd i'r cenhedloedd, h.y., dysgu cymeryd golwg sobr ar bethau; ac y mae swn emynau Cymru, a difrifwch sobr ei hen donau lleddf yn allu i ddangos i'r byd fod lle i ddagrau, ac amser i dristwch yn hanes bywyd dyn. Y mae galar yn beth mwy sylweddol—yn fwy o *reality* na llawenydd; ac y mae perlau dagrau yn fil gwerthfawrocach na'r grechwen sydd ar wyneb digrifwch. Oes,

MAE EISIAU NODYN LLEDDF CYMRU YN ANTHEM FAWR

dynoliaeth, ac ni cheir y nodyn lleddf yn fwy pur a melus nag yn hen alawon ac hen emynau Gwalia. Myn rhai na fydd yn y byd cyn hir ond un iaith, a hono y Saesneg medd y Sais, y Ffrancaeg medd y Ffrancwr, a'r Ellmynaeg medd y German, heb son am y rhai gredant mai Esperanto fydd *universal language* y byd. Beth bynag fydd, mi fydd yn sicr o fod yn iaith fyw, wedi tyfu fel coeden; nid iaith o waith llaw—mor ddifywyd a phost iet!

Golwg fasnachol gymer yr holl bobl hyn ar bethau; ond y mae natur dyn yn fwy na natur y masnachwr; nid yw dynoliaeth yn treulio ei holl amser yn y farchnad; ni chredaf fi gyda rhai nad yw gwyneb yr hen ddaear ond rhyw *gounter* anferthol; rhaid yw i ddyn iaith y dorth ac iaith y galon hefyd; nid oes gan y Sais ond yr un iaith i'r dorth a'r galon; yr hyn brawf fod cylla a chalon y Sais yn agos iawn at eu gilydd; ond rhaid i'r Cymro wrth iaith y corff ac iaith yr enaid,

A'R GYMRAEG YW IAITH ENAID Y CYMRO.

Iaith ei fam, iaith ei dad, iaith ei gyndeidiau er's oesoedd dirif, iaith Glyndwr a Dafydd Ap Gwilym, iaith Ceiriog ac Islwyn, iaith Pantycelyn a Williams o'r Wern a Christmas Evans, iaith oes aur cenedl y Cymry—iaith Arthur Fawr ei hunan. Ydyw'r Cymro yn mynd i werthu ei iaith er mwyn ffioled o gawl coch y Sais? Dyma neges ardderchog i Gymru—dysgu'r bywyd uwch, yn gyntaf iddi ei hun, ac yna i holl genhedloedd y ddaear; dangos i'r byd fod yspryd yn fwy na mater; fod dysg a moes yn fwy nag aur; fod gwir grefydd yn fil gwell na'r gemau a'r perlau puraf; fod gwerin lan, oleuedig, yn well na'r aristocratiaid mwyaf caboledig ar wyneb y ddaear; fod prydferthwch syml bywyd yn fwy na holl ogoniant palasau'r byd; fod gwr eill siarad iaith ei enaid yn well na'r gwr nas medr ond iaith sathredig y corff; fod cenedl fechan unol, os yn bur, yn yspryd yn fwy gallu yn y byd na byddin enfawr a llynges o longau dur; ac y gall Cymru heddyw orch-

fygu ei gorchfygwyr, wneud concwest ar ei choncwerwyr, fel y gwnaeth cenedl fechan Groeg a'r Rhufeiniaid gynt.

Breuddwydiodd Israel gynt, pan mewn sachliain a lludw, am wneud concwest ysprydol o'r byd, a daeth ei breuddwyd i ben. Pwy a wyr na ddaw breuddwydion Cymru i ben? Pwy a wyr na wna yspryd Arthur Fawr eto gyfodi yn Nghymru, a pheri i genedl gwlad y bryniau wneud concwest ysprydol o'r byd?

Rhyfel ysprydol fydd rhyfel y dyfodol; ac y mae yspryd Arthur yn effro yn Nghymru heddyw i alw arni i dynu ei chleddyf o'r wain. Ar faes addysg, ar ran moesoldeb, yn erbyn gormes cyfoeth, dros ein hiaith anwyl—pobpeth wnawn er gwneud Cymru yn Gymru lan, yn Gymru bur, yn Gymru grefyddol—yn mhob peth a wnawn, yn mhob brwydr a ymladdwn, cofiwn fod yspryd ein cyndeidiau yn brwydro gyda ni; fod milwyr a marchogion Arthur wedi deffro o gwsg eu mil blynyddau, ac yn ymladd o'n plaid yn y gad ysprydol hon. Byddwn yn unol fel cenedl, gan gadw'r weledigaeth fawr yn eglur o'n blaen, a chofio o hyd yr hyn a ddywed y gwr doeth—"Lle ni byddo gweledigaeth, methu a wna y bobl." Y mae'r Cymro, mi obeithiaf,

WEDI GORPHEN BOD YN WAS BACH I'R SAIS;

wedi rhoddi heibio 'r hen ffwlbri o droi gwasanaeth ei gapel yn Saesneg os digwydd fod yno *English game-keeper* yn y gynulleidfa. Purion peth yw dysgu iaith y Saeson, a dysgu'r hyn a fedrwn oddiwrthio ef a phawb arall, ond peidied y Cymro ag anghofio ei hun, a'i iaith, a'i wlad, ond cofied o hyd mai "Cas gwr na charo'r wlad a'i maco."

Cytunir yn gyffredin fod yn y Cymro, fel yn yr holl dylwyth Celtaidd *deimladaeth*, *sentiment* a chrebwyll, *imagination* uwchlaw cenhedloedd eraill, ac felly y mae'n ddyledswydd ar Gymru wneud yn fawr o'r deimladaeth ddofn a'i chrebwyll fyw; ac felly, gynorthwyo i godi'r byd o lwyfan y materol i lwyfan yr ysprydol. Credaf nas gall y Cymro wneud hyn oll os cyll ei iaith, ac o golli ei iaith golli ei hanes, ei serch at ei dadau, ei gariad at draddodiadau goreu ei wlad, ac uwchlaw dim ei annibyniaeth ysprydol.

Dyma ni, ynte, wedi ceisio dangos fod i bob dyn a chenedl ei neges; nad yw cenedl heb genhadaeth ond cenedl a nôd angau arni; ac felly os yw Cymru i fyw fel cenedl, a bod yn allu yn y byd, rhaid iddi hithau wrth ei neges; ac yr wyf wedi ceisio dangos beth yw'r neges hono. Gallaf symio yr oll mewn un frawddeg—

NEGES CYMRU YW YSBRYDOLI CENHEDLOEDD Y DDAEAR.

Y mae y nod yn uchel, a rhaid i'r ymdrech fod yn ddirfawr, ond pwy all fesur nerth cenedl gyfan, ac yspryd y gwirionedd yn gleddyf o dân yn ei dwylaw.

YMSON Y MYFYRIWR.

"Myn'd i'r cwrdd; a'r esgusodion dros beidio myn'd"—dyna'r mater y ceisiaf sylw'r darllenydd ato yn yr erthygl hon. Nis gwn a wyf yn iawn yn fy nghasgliad ai nid wyf; ond rhywfodd credaf fod mwy o'r dosbarth a elwir

"Y-RHAI-A-AROSANT-GARTREF"

yn perthyn i ni fel enwad nag i un enwad arall. Cwrddwn â hwynt yn mhob cymydogaeth; er eu bod, yn ddiau, yn fwy lluosog yn rhai cymydogaethau nag yn eraill. Mae'r

mater hwn yn ddiweddar wedi bod yn destyn myfyrdod i mi. Ac nid testyn anyddorol ydyw ychwaith. Yr wyf wedi edrych arno o lawer iawn o gyfeiriadau—yn enwedig ar yr esgusodion amrywiol dros beidio myned i'r cwrdd, ac effaith hyn ar ddyfodol yr achos y proffeswn ymlyniaeth wrtho; oherwydd, mae hyd yn oed "y-rhai-a-arosant-gartref," fel rheol, yn barod bob amser i gydnabod mai Undodiaid ydynt.

Pa'm y rhaid i gymaint o Undodiaid ymatal rhag mynychu'r cwrdd ar y Sul? Nid un ateb sydd i'r gofynlad hwn, ond llawer. Mae gan bob un ei reswm. A rhyfedd y fath allu dyfeisgar amlygir gan lawer o'r rhesymau hyn. Ond er fod y rhesymau yn lluosog, perthyn iddynt oll un nodwedd arbenig—nid oes un sail wirioneddol iddynt. Y maent, fel y dywedir am ambell i chwedl, yn cario eu cymeriad gyda hwy — nid oes angen ond i'r esgusodwr ddyweyd ei reswm dros beidio myned i'r cwrdd na welir ar unwaith mai disail ydyw; neu, nad oes gwirionedd ynddo.

Pan yn eistedd yn nhawelwch ac unigedd fy myfyrgell yn ddiweddar, syrthiais i gyflwr y gellir ei ddesgrifio yn oreu fel breuddwyd effro; a thra yn y cyflwr hwn, tybiwn fy mod yn gweled nifer luosog o bobl yn eistedd ar fainc o fy mlaen, fel nifer o ysgolheigion yn eistedd o flaen eu hathraw. Yn ddiymdroi, rhoddais i bob un o honynt y gofyniad,—

"BETH YDYCH O RAN DALIADAU CREFYDDOL?"

Cefais fod yr oll yn Undodiaid. Yna, gofynais, "I ba le yr arferwch fyned i'r cwrdd?" Ateb pob un o honynt oedd—nad oedd yn myned i'r cwrdd yn unman. Ar ol clywed hyn, nis gallwn lai na datgan syndod nad oedd un o'r nifer luosog a eisteddai o'm blaen yn mynychu addoliad nac yn gwneud dim i gadw i fyny achos crefyddol rhyddfrydig yn unman. Ar ol clywed yr atebion uchod, teimlais dipyn yn chwilfrydig i wybod y rheswm neu y rhesymau allai fod gan bob un o honynt dros beidio mynychu addoliad. Felly rhoddais y gofyniad iddynt yn un ac un, ac wele sylwedd yr atebion:—

Y CYNTAF.—"Yr wyf yn gweithio yn galed trwy'r wythnos; ac yr wyf yn treulio'r Sul yn hollol segur er cael gorphwysdra i'm corph." Mae hyn yn burion; rhaid i'r corph gael gorphwys. Ond ai trwy orweddach a symud yn ddiamcan o fan i fan y ceir gorphwysdra yn oreu? Ai nid blinder calon ac yspryd sydd, fel rheol, yn rhan i'r dyn a dreulia'r Sul felly. Ffrwyth profiad mynychwyr cyson a ffyddlon o addoliad ydyw hyn—fod yr arferiad yn dwyn iddynt adgyfnerthiad ac adnewyddiad corph, meddwl, calon, ac yspryd na fedr dim arall ei roddi iddynt.

YR AIL.—"Nid wyf yn gweled fod myned i'r cwrdd yn ateb un diben. Yr wyf yn byw llawn cystal heb fyned i'r cwrdd a'r rhai sydd yn myned." Iaith y Pharisead yw hon. "Yr wyf yn diolch," meddai'r math hyn o esgusodwyr, "nad wyf fi fel dynion eraill. Mae dynion yn myned i'r cwrdd, ac nid oes ganddynt ddim i ymffrostio ynddo wedi'r cyfan. Yr wyf fi yn ddyn da iawn heb fyned i'r cwrdd." Mae'r esgusodwr hwn yn anghofio un gwirionedd pwysig—nad yw efe yn gyfrifol am neb ond am dano ei hun. A'r pwnc ddylai efe ystyried ydyw, nid a ydyw efe cystal a dynion eraill o'i amgylch heb fyned i'r cwrdd, ond ai nid ei ddyledswydd ef yw myned i'r cwrdd er cael cymhorth i wella ei hun. Yn debygol, mae ganddo ddigon o le i wella, fel y mae gan bawb le i wella.

Y TRYDYDD.—"Nid oes genyf amser i fyned i'r cwrdd. Rhaid i mi ofalu am fy eiddo a'm hanifeiliaid; ac erbyn y cwblhaf fy ngwaith foreu neu nawn Sul, mae yn rhy ddiweddar i fyned." O bob esgusawd, y mwyaf ffugiol, fel rheol, ydyw hwn—dim amser i fyned i'r cwrdd. Rhyfedd na lynai tafod yr hwn a ddyry y rheswm hwn dros beidio myned i'r cwrdd wrth daflod ei enau. Metha aberthu ychydig oriau un dydd yn yr wythnos i fyned i dŷ addoliad i ddiolch i Dad

ei holl drugareddau am ei diriondeb mawr iddo trwy'r blynyddau, ac i feithrin galluoedd y natur ysprydol y mae wedi ei ddonio â hi! Gwir iaith y dosparth hwn ydyw, "Bwytawn ac yfwn, canys yfory marw ydym."

Y PEDWERYDD.—"Nid wyf yn hoff o'r gweinidog sydd genym. Mae yn bob peth ond yr hyn ddylai gweinidog fod." Mae y rheswm hwn, pan yn ddidwyll, yn un cryf; oherwydd, anhawdd gwrando ar ddyn am yr hwn nad oes genym feddwl uchel, yn yr hwn nad oes genym ffydd, a bywyd yr hwn sydd yn wadiad o'r hyn a bregetha. Ond yn gyffredin nid yw'r esgusawd hwn amgen na chlogyn i guddio difaterwch yr esgusodwr.

Y PUMED.—"Nid wyf yn cael un pleser mewn addoliad." Mae'r bai am hyn, yn debygol, yn yr esgusodwr ei hun. Anhawdd iawn i'r hwn a lochesa feddyliau bydol Sul a gwyl, a ddefnyddia iaith anweddaidd, ac a rydd ei fryd ar yr anifeilaidd yn ei natur, i deimlo dyddordeb a chael pleser mewn meddyliau aruchel, mewn iaith goeth, yr hyn a berthyn i'w gynydd fel bôd ysprydol. Mae'r meddwl a'r galon, fel rheol, yn ymborthi ar yr hyn sydd yn apelio gryfaf at eu perchenog.

Ni enwaf ragor o'r esgusodion oherwydd diffyg gofod; a diweddaf fy llith fel hyn: mae'r "Undodiaid-a-arhosant-gartref" yn amddifadu eu hunain o lawer iawn o bleser trwy gadw yn mhell o bob achos crefyddol, yn esgeuluso rhoi i'w plant yr anogaeth i fynychu addoliad a dardd o esiampl, yn gwanhau yr achos sydd yn gwneud am gynydd mewn materion crefyddol, ac yn gwneud eu rhan i ddwyn yn ol y cyflwr cymdeithasol isel o'r hwn y bu crefydd ac achosion crefyddol (heb un amheuaeth) yn foddion i godi ein cenedl.

MYFYRIWR.

JOHN BALL.

Yn nghyfarfod Cymdeithas Ymdrechol Grist'nogol Hen Dy Cwrdd, Aberdar, y Parch. D. G. Rees, Penbont-ar-Ogwr, oedd y llefarwr, nos Lun, Ionawr 6, a'i bwnc oedd John Ball, Merthyr, Offeiriad a Phroffwyd. Yn ol barn Mr. Rees, nid oes yr un hanes gwirioneddol pobl Prydain Fawr wedi ei ysgrifenu hyd yn hyn. Proffesai J. R. Green iddo wneud hyny, ond hanes y bobl fawrion ydyw hwnw yn benaf. Yr oedd digon o le i'r hanes, a gobeithiai y codai rhyw ddyn o athrylith i ysgrifenu *hanes y bobl.* Pan y cai hyny ei wneud, teimlai nad y lleiaf yn mhlith arweinwyr y bobl fyddai arwr y nos hono.

Rhoddodd Mr. Rees grynodeb byr ond dyddorol o'i arwr, yr hwn a flodeuai yn y bedwaredd ganrif ar ddeg. Offeiriad oedd o urdd St. Francis, ac yr oedd wedi ei drwytho ag yspryd ac egwyddorion y dyn mawr hwnw. Pan laddodd Wat Tyler y casglwr trethi am iddo insultio ei ferch, yr oedd John Ball a Jack Straw yn arweinwyr yn y terfysg. Yr oedd cyflwr y bobl gyffredin yn y dyddiau hyny yn druenus o wael, yn anghydmarol waeth nag ydyw heddyw, a phasid deddfau oeddynt yn cynyddu'r tlodi yn hytrach na lleihau'r trueni. Yn wyneb llawer o wrthwynebiad ac o erledigaeth pregethai John Ball ar hawliau'r tlodion —y serfs. A'i destun bob amser oedd—

When Adam delved and Eve span,
Who was then the gentleman?

Tebyg i hyn oedd un o'i anerchiadau :—"Yn y dechreuad nid oedd yr un dyn caeth, ac ni ddylai fod yr un dyn caeth, oddigerth am deyrnfradwriaeth i'w arglwydd. Bobl dda, nid aiff pethau yn y blaen fel y dylent hyd oni bydd pob peth yn gyffredin, dim cyhyd ag y bydd tlodion a boneddigion. Os yw pawb yn deilliaw oddiwrth Adda ac Efa, pa fodd y gallant hwy — y gentlemen—fod yn well na ni? Y maent hwy wedi eu dilladu mewn gwisgoedd gwychion ac yn gynes, a ninau mewn carpiau. Y mae ganddynt hwy eu gwinoedd a'u perlysiau a'u bara gwyn gwenith, a ninau ond bara ceirch a dwfr. Gadewch i ni fyn'd at y brenin, ac oni wna efe ein helpio, rhaid i ni geisio am feddyginiaeth, a helpio ein hunain."

Dylid cofio fod yr araeth hon wedi ei thraddodi fwy na 500 o flynyddau'n ol, a thybiai Mr. Rees y gallai arweinwyr llafur y dydd heddyw ddefnyddio y rhan fwyaf o honi yn bwrpasol iawn. Edrychai'r bobl y dyddiau hyny am help oddiwrth y brenin; ond buan cafodd Ball a'i gyfeillion sylweddoli gwirionedd yr ymadrodd —Nac ymddiriedwch mewn tywysogion.

Darluniodd yr areithydd ymdaith y bobl i Lundain, wedi iddynt ollwng Ball yn rhydd o'r carchar yn Maidstone, lle'r oedd yr Archesgob wedi ei ddodi. Fe gofia y rhai sy'n gyfarwydd a'r hanes i Wm. Walworth ladd Wat Tyler pan oedd efe a John Ball mewn ymddiddan a'r brenin, ac i Walworth gael ei wneuthur yn farchog (=Syr) am ei weithred o "wroldeb." Ofnai Mr. Rees fod plant yr ysgolion heddyw yn cael eu dysgu i edrych ar Walworth fel arwr yr amgylchiad hwnw. Os felly, yr oedd yn gamsyniad mawr. Ffodd John Ball, ond daliwyd ef yn Coventry, cafodd ei dreial yn Saint Albans, a'i ddedfrydu i gael ei grogi, ei ddiberfeddu a'i gwarteru. Yr oedd geiriau J. Russell Lowell yn wir iawn—

Truth for ever on the scaffold,
Wrong for ever on the throne;
But that scaffold sways the future,
And behind the dim unknown
Standeth God within the shadow,
Keeping watch above his own.

Gellid meddwl fod bywyd John Ball wedi ei wastio, ond gallai Mr. Rees sicrhau iddynt nad oedd. Gelwid y 150 o flynyddau ar ol ei farwolaeth yn "oes euraidd llafur." Ni fu na chynt na chwedi'n y fath ragorfreintiau yn eiddo i'r dosparth gweithiol. Yr oedd bywyd a gwaith John Ball yn seiliedig ar argyhoeddiadau dwfn moesol a chrefyddol.

Yr oedd Mr. Rees yn Sosialydd, ac yn falch o hyny, ond ni chredai yn y Sosialiaeth ddibynai yn gyfangwbl ar yr *argument*, y dylai dynion gael mwy o fara a chaws, &c., a mwy o arian. Nid oedd elfen i barhau mewn Sosialiaeth oni fyddai yn seiliedig ar egwyddorion dyfnion moesol. Gallu cymhelliadol John Ball oedd ei bod yn seiliedig ar yr egwyddor hono. Rhoddodd bob peth i fyny. Mor wahanol iddo yw llawer o arweinwyr crefyddol y dydd heddyw. Dro yn ol ymwelodd esgob a dderbyniai ei bedair mil o bunau'r flwyddyn a bro Morganwg, ac yn rhyfedd iawn pregethai'n hyawdl ac anogai'r gwrandawyr a gaent 15 swllt yr wythnos i arfer hunanaberth.

Wrth derfynu cyfeiriodd Mr. Rees at Emyn Ebenezer Elliott — Duw gadwo'r bobol, a dywedodd ei fod yn gobeithio y byddai'r Undodiaid cyn hir yn ddemocrataidd ddigon i'w osod yn eu llyfr emynau.

Dywedodd R.J.J. ei fod yn Mhrogram y Gymanfa eleni.

Mr. Rees: Da iawn. Undodwr oedd Ebenezer Elliott. Nid wyf am wneuthur capital enwadol o'r ffaith, dim ond yn unig ei awgrymu. Mae'n dda genyf ei fod yn llyfr emynau'r Annibynwyr. "Duw gadwo'r bobol" oedd *key-note* bywyd John Ball.

Yn yr ymddiddan ar ol yr araeth, dywedodd Councillor T. Lewis ei fod yn falch fel Annibynwr fod yr emyn yn eu llyfr hwy, ond nid oedd yn cael ei ganu yn aml.

Mrs. M. A. Davies a ddywedodd ei bod wedi mwynhau yr anerchiad yn fawr. Teimlai fod angen gwella cyflwr y tlodion. O'i rhan hi nid oedd am gyfoeth mawr nac am foethau lawer, ond credai y dylai pob un gael digon o fwyd iachus ac o ddillad cynes.

Siaradodd amryw eraill.

ADOLYGIAD.*

Darllenasom y llyfr hwn gyda phleser digymysg. Y mae wedi ei ysgrifenu mewn iaith dlws lithrig, ac mewn yspryd ffein, megys gan un yn chwilio, ac yn ceisio gosod allan y gwir fel y mae efe wedi ei weled. Ceir rhywbeth i'w ddysgu mewn llyfr o'r fath. Mwy pwysig, a mwy o help i ddyn ieuanc yn enwedig, yw darllen llyfr ar hyd llinellau newyddion, er iddo anghytuno ag ef, na darllen dwsin na fyddant ond eco o'r hyn wyddai'n flaenorol. Ceir hwn yn awgrymiadol, os nad yn argyhoeddiadol. Mae ynddo lawer y cytunwn ag ef. Trinia ei bwnc yn ei wahanol agweddau gyda deheurwydd. Gellir cyfrif ei safbwynt ar bynciau'r ffydd yn gymedrol uniongred, fel y ceir ef yn Nghymru, ond eto, mae'n mhell o fod yn dogmatic. Dywed ei fod mor awyddus ag un Undodwr i sefyll dros y ffaith mai un Duw sydd (23); un mewn ystyr rifyddol, heb *ail* yn bod (20). Dyfyna adnodau lawer i'r perwyl hyny. "Credu yr wyt ti mai un Duw sydd; da yr wyt ti yn gwneuthur." Yna dywed ei bod "yn amlwg y credai yr apostolion fod Iesu Grist yn Dduw; rhaid dirdynu iaith cyn y gellir dyfod i un casgliad gwahanol." Fe faddeuir i ni am amheu hyny, gan y credwn fod mwy o eisieu dirdynu yn y cyfeiriad arall. Eto, fe ddywed fod y Drindod "yn ffaith ddadguddiedig yn y Beibl (20); yn gynyrch dadguddiad hollol (21); tra nad oes yn ein golwg ni gymaint ag un awgrymiad diamwys o honi o ddechreu Genesis hyd ddiwedd Datguddiad; nad yw ond llygriad paganaidd ddygwyd i fewn i'r eglwys yn yr ail a'r drydedd ganrif yn Alexandria. Dysgid hi, mae'n wir, yn yr India ac yn yn yr Aifft ganrifoedd cyn y cyfnod Cristionogol, ond ni chred yr Iuddew ynddi hyd heddyw.

Cytunwn yn hollol a'r awdwr pan y dywed: "Yr ydym ni yn dueddol i ddarllen i mewn ein syniadau ein hunain i ymadroddion, pan nad ydynt yno mewn gwirionedd"; ond y mae'n hawddach gweled y duedd yn arall na'i ganfod ynom ein hunain. Gadawn i Mr. Williams ei nodi allan ynom ni; tra y gofynwn gyda phob parch, Pwy olygai'r proffwyd† (Esa. 9 : 6), a phwy y dymuna Mr. W. awgrymu pan yn dyfynu, "Gelwir ei enw ef Rhyfeddol"?‡ Paham yr awgryma Crist yn "Alpha ac Omega?" Wrth gwrs, fe wna hyny y tro i'r Cymro uniaith, ond nid i'r hwn sy'n gyfarwydd a'r Testament Diwygiedig. Y mae'r awdwr yn foddlawn, yn ol gofynion y Testament hwnw, i adael allan adnod y "Tri Thyst"; ond deil fod y syniad wedi'r cwbl yn rhedeg fel rhwydwe trwy'r holl epistol (66). Carasem, pe fyddai, ar yr un sail, wedi derbyn

* "Yr Arweinydd Dwyfol: Myfyrdodau ar yr Yspryd Glan a'i waith," gan y Parch. H. C. Williams. Williams, Llangollen, 2s. 6c.

† Ai mab Hesecia? ‡ Ai Iesu Grist?

rhai cyfnewidiadau eraill. Wrth hyny cyffesai, er yr holl ysgrifenu o'i blaid, nad eiddo Paul yw'r darlleniad, "*Yr holl* ysgrythyrau," &c., 2 Tim. 3 : 16, 17 (33); ac o bosibl y cyfaddefai ei bod yn *insult* i'r Tad Goreu i feddwl ei fod yn maddeu "er mwyn" (Eph. 4 : 32) neb na dim ond ei hunan-gynhyrfiol gariad (130). Y ddwy benod fwyaf boddhaol yn y llyfr hwn, yn ein tyb ni, yw'r XI a'r XII, ar Mewnfodaeth Duw ac Is-ymwybyddiaeth. Ceir yn y rhai hyn lawer fydd yn awgrymiadol i'r Cymro uniaith. Yr ydym wedi cyffwrdd ag amryw bwyntiau yn y llyfr, ond y mae ynddo ugeiniau dyddorol eraill y byddai da i'n pobl ieuainc gyfarwyddo â hwy a dyfod i benderfyniad yn eu cylch. Proffeswn ein hunain yn Undodiaid, a dylem fod yn gwybod y Paham. Un gair arall, credwn mai camgymeriad sobr yw ceisio cael geiriau Groeg a Lladin neu Hebraeg wedi eu troi allan yn gywir o'r wasg Gymreig. Methiant difrifol ydyw bob amser.

J.B.-N.

CONGL YR AWEN.

FY HEN GYFEILLION.

(*Profiad hen wr 74 oed, Thomas D. Thomas, Lindsey, Pa., mewn myfyrdod am ei hen gyfeillion*).

Mae'r cyfaill Edward Williams
Yn hen gymydog hardd,
Mor brydferth ei gymeriad
A'r rhosyn yn yr ardd :
Mae'i feddwl yn ehedeg
Oddiyma i'r Hen Wlad,
I ardal Pontarddulais,
Neu gartre'i fam a'i dad.

'Rwyf finau yn fy meddwl
Ar brydiau'n rhoddi llam
Oddiyma i Heolyfelin,
I fwthyn bach fy mam ;
'Roedd genyf rai cyfeillion
Fan yno foreu f' oes,
Rhai dipyn yn afradlon
A rhai yn dda eu moes.

'Roedd Dafydd William Davis,
A William Roberts bach,
A Thomas Dafydd Howells
Bryd hyny'n fyw ac iach,
A Thomas Jones y pwyswr,
A'r Eiddil Cynon-fardd,
A Williams Carw Coch oe'nt
Fel blodau yn yr ardd.

Chwech ffrynd oedd Dafydd Howells
A Thomas Morgan fwyn,
Ac Evan Richard Jenkin
Bob amser yn cyd-ddwyn ;
A Morgan William Thomas,
A Thomas 'Sgubor Wen,
A Griffith Jones Caradog—
Maent oll tu draw i'r llen !

Mae Lewis Noah Williams,
Oedd gynt yn ledio'r côr,
A'r hen frawd Jenkin Williams
A Dafydd Jones y Store,
A Mary gweddw Davis
Sy'n byw tu draw'r New Inn
A Thomas Docken Williams
Yn byw'n y palas gwyn.

Ac Emwnt Dafydd Howells
Oedd mewn cwmpeini llon,
A Thomas Dafydd Edwards
A Daniel Rhys Llanon ;
Mae rhai'n i gyd, gobeithio,
Yn awr ar dir y byw,
Yn cyrchu o hyd heb fethu
I dy yr unig Dduw.

A llawer o gyfeillion
(Eu henwi sy'n rhy faith)
O, ie ! Evan Lewis,
Fu farw yn y gwaith ;
Lindsey, Pa.

'Rwyf finau gyda'm teulu
Yn byw mewn gwlad o hedd ;
Caf finau fyn'd fel hwythau
Dan raian oer y bedd.

THOS. D. THOMAS.

MARWGOFION.

HYDREF 2, ar ol cystudd maith a phoenus, Mrs. Evans, anwyl briod Mr. Christmas Evans, Heolgerryg, ger llaw Merthyr Tydfil. Mae y teulu haelionus a pharchus hwn yn adnabyddus i holl Undodiaid Cymru ; a gwyddom y bydd yn dra chwith gan ddarllenwyr lluosog YR YMOFYNYDD ddeall fod y foneddiges ardderchog hon wedi gorphen ei gyrfa. Merch ydoedd i'r diweddar Thomas Jones, o'r Grawen, ffermdy henafol yn nghwm y Taf Fawr ; ac yn y lle prydferth hwnw y ganed Mrs. Evans ychydig dros driugain mlynedd yn ol. Treuliodd ei holl fywyd priodasol yn Heolgerryg, yn fawr ei pharch gan yr holl ardalwyr ; ac yn ei marwolaeth collodd tlodion y lle un o'u prif gymwynaswyr. Cydymdeimlir yn fawr â'r teulu trallodus, yn enwedig â'r priod galarus, yr hwn sydd ei hun wedi bod mewn cystudd blin am dymhor maith, a phan ar wellhad y daw arno y frath ingol o gael ei amddifadu o briod a fu yn heulwen ei oes am lawer blwyddyn hir. Mae y teulu hwn wedi dal cysylltiad hir ac urddasol â'r eglwys yn yr Hen Dy Cwrdd, Cefn Coed, a llawer tro mae yr eglwys hono wedi bod o dan deyrnged diolch i'w haelfrydedd a'i garedigrwydd anhunanol. Yn mynwent yr hen gapel mae claddfa'r teulu, ac yno y gosodwyd gweddillion Mrs. Evans i orphwys eu olaf hun. Nodded dyner y Tad goreu a liniaro ofid dwys y teulu, ac a siriolo â thes ei gariad lwybr y priod hawddgar weddill ei oes ar y ddaear.

RHAGFYR 17, Mrs. Evans, Temple Buildings, Llanbedr, yn 48 mlwydd oed. Merch ydoedd i'r diweddar David Jenkins, Glynmeheryn, Llanwenog ; ac yn ardal ei genedigaeth y treuliwyd ganddi y rhan fwyaf o'i hoes, fel yr oedd ein hadnabyddiaeth o honi'n gymharol fyr, ac yn gyfyngedig bron yn hollol i'r blynyddoedd y bu'n *matron* yn y lle uchod. Ond am y blynyddoedd y bu yn gwasanaethu y swydd bwysig hono, gwyddom am dani'n dda, a gallwn ddywedyd yn ddibetrus fod y modd anrhydeddus gyda pha un y cyflawnai holl ddyledswyddau amrywiol y swydd mewn gwirionedd yn glod mawr i'w phen a'i chalon. Yn ei marwolaeth collodd Mr. Evans briod ffyddlawn, a'i mherch a'r tlodion fam dyner, ofalus, a llawn o gydymdeimlad. Gadawodd mewn galar ar ei hol briod ac un ferch, a pherthynasau eraill lawer. Ar ddydd ei hangladd daeth torf luosog yn nghyd i ddangos eu parch i goffadwriaeth yr ymadawedig a'u cydymdeimlad â'r galarwyr yn eu trallod. Claddwyd ei gweddillion yn mynwent capel Brondeifi, a gwasanaethwyd ar yr achlysur gan weinidog y lle, yn cael ei gynorthwyo gan y Parch. D. Jones (B.), Noddfa, Llanbedr.

IONAWR 2, yn bum' mis a phythefnos oed, John Llewelyn, mebyn bychan Rees a Margaret Cope, Trebanos. Hebryngwyd ei farwol deml i briddell Gellionen y Sadwrn canlynol, a gweinyddodd y Parch. W. A. Richards yn dyner a thoddedig ar yr amgylchiad. Cofied y rhieni a'r plant

am wên brydferth eu baban tlws, yr
hyn sydd ddarlun byw yn aros o'i ol.

O wawr i wawr aeth Ioan bach,
I gwmni engyl têr,
I lawenhau yn nghartref iach
Y wynfa uwch y sêr.—BANOS.

Aeth John Llewelyn tua'r nef,
I gwmni'r wawr i fyw,
A thyfu 'mlaen yn wyn wna ef
I ddydd di-fachlud Duw.—ALFA.

IONAWR 2, yn dair oed, Anne, merch fechan Mr. a Mrs. Davies, Ffosesgob. Claddwyd y dydd Sadwrn canlynol yn Carmel. Gwasanaethwyd gan y Parch. Arthur Thomas, yn cael ei gynorthwyo gan weinidog y lle.

IONAWR 3, Herbert Jones, Coedmorefawr, ger Llanbedr, yn 86 mlwydd oed. Cyrhaeddodd derfyn eithaf ei daith yn bur sydyn ac anisgwyliadwy. Yr oedd wedi ei gyfyngu i'w wely braidd yn hollol er ys rhai blynyddau, ac eto bron os nad yn hollol ddiboen. Ni fu ei gystudd olaf ond rhyw ddwy awr. Gweinyddwyd arno'n ystod y blynyddau yma 'n dyner a gofalus, a chydag hyfrydwch mawr gan ei ferch, yn cael ei chynorthwyo gan ei brawd a'i nhith. Mewn ty o'i eiddo ef o'r enw Ty'nrheol, Ram, y cychwynwyd yr Ysgol Sul a'r gwasanaeth crefyddol, a esgorodd wedi hyny ar yr achos crefyddol yn Mrondeifi, Llanbedr, ac yr oedd ef yn un o bleidwyr mwyaf selog y mudiad. Mae y rhan fwyaf o'r rhai oeddent yn selog fel yntau dros y mudiad erbyn hyn wedi rhodio ffordd yr holl ddaear. Gadawodd mewn galar ar ei ol dair merch ac un mab, heblaw brawd a chwaer a pherthynasau eraill lawer. Claddwyd ei weddillion yn mynwent Brondeifi. Gwasanaethwyd ar yr achlysur gan weinidog y lle, a chynorthwywyd ef gan y Parch. D. Evans, Cribyn.

IONAWR 6, Elizabeth Matilda, merch fechan Mr. a Mrs. Jones, Fronwen Farm, Llanarth, diweddar o Gwarllwynoidos a Phwllffein. Claddwyd y dydd Iau canlynol yn Pantdefaid, y gweinidog yn gwasanaethu.

IONAWR 13, yn dra disymwth, yn 4, Vicarage Gate, Llundain, Miss Caroline Elizabeth Williams, yn 84 oed. Yr oedd Miss Williams yn chwaer i Mr. Morgan B. Williams, Abertawe, a Mr. Arthur Williams, cynaelod Seneddol dros Ddeheuran Morganwg ; yn ferch i Dr. Williams, Penbont ar Ogwr, ac yn nith i Mr. Walter Coffin, yr Anghydffurfiwr cyntaf a ddanfonwyd (1852) o Gymru i Senedd Prydain Fawr. Gweler ei hanes yn YR ATHRAW, 1867, tud. 64. Gweithiodd yn ddiwyd drwy ei hoes dros les cymdeithas, ac yn enwedig dros ei rhywogaeth ei hunan. Hi sylfaenodd Cymdeithas Argraffu'r Menywod. Yr oedd yn foneddes haelionus, a theimlai ddyddorbeb mawr yn yr achos Undodaidd yn Nghymru. Cyfranai'n helaeth at achosion da, yn enwedig at addysg. Rhoddodd £1000 at gychwyn Prifysgol Caerdydd, a llawer iawn o bryd i bryd ar ol hyny. Cymerodd yr angladd le dydd Iau, yr 16eg, yn y Golder's Hill Crematorium.

MANION AC HANESION.

Cyrhaeddodd Miss Lee Thomas, Buckingham Place, Llanbedr, un-ar-hugain oed ar yr ail o Ionawr, ac i ddathlu'r amgylchiad rhoddodd giniaw ardderchog i rai o'i chyfeillion, a gwledd oedd mor ardderchog a hyny i eglwys ac Ysgol Sul Brondeifi. Hir oes iddi wneuthur daioni ac i gadw'n fyw draddodiadau y tadau.

LLWYNRHYDOWEN. — Talodd

Ysgol Sul Capelyfadfa ei hymweliad blynyddol â'r ysgol hon prydnawn dydd Nadolig er myn'd trwy y Pwnc. Dechreuwyd y gwasanaeth gan Mr. Herbert J. Jones, a holwyd gan y Parch. E. O. Jenkins. Yn yr hwyr cafwyd cyngherdd llwyddianus iawn yn yr hen gapel o dan lywyddiaeth Cad. Davies.

CAPELYFADFA. — Cynhaliwyd cyngherdd blynyddol yr eglwys uchod yn Ysgoldy Talgareg nos Fawrth, Rhagfyr 31. Daeth cynulliad da o bobl yn nghyd, a chafwyd cyfarfod difyr a hapus.

PENODIAD. — Bydd yn dda gan luaws cyfeillion Miss Jane Evans, Aeron Villa, Llanfihangel-Ystrad, gynt o Tynant, Ciliau Aeron, i wybod ei bod wedi cael ei phenodi yn brifathrawes ar Ysgol y Cynghor, Pennant. Dymunwn iddi lwyddiant gyda'i gwaith.

CEFN COED.—Nos cyn y Calan cynhaliwyd ein cyfarfod i bobl ieuainc yr Ysgol Sul. Edrychir yn mlaen gyda phleser at y cwrdd hwn gan y plant, a gwneir yn fawr o hono pan y daw. Cafwyd tê ardderchog yn yr ysgoldy yn y prydnawn, a chwrdd yn y capel yn yr hwyr. Cariwyd y gweithrediadau yn mlaen yn gyfangwbl gan y plant a'r bobl ieuainc. Llywyddwyd gan Mr. Rees Jenkins. Beirniadid ar y canu a'r adrodd gan Mr. J. R. Evans a Mr. Tom Lewis. Ar derfyn y cwrdd rhoddwyd llyfrau gwerthfawr i'r plant am eu ffyddlondeb gyda'r Ysgol Sul yn ystod y flwyddyn. Rhanwyd hwynt gan Mrs. J. R. Evans.

Mae yr eglwys yn yr Hen Dy Cwrdd wedi bod yn hynod weithgar yn ystod y gauaf hwn. Mae Cymdeithas y Bobl Ieuainc yn llewyrchus iawn. Heblaw y papyrau dyddorol a gafwyd gan yr aelodau eu hunain, cawsom y fraint o wrando ar Sarnicol yn traethu ei genadwri yn odidog ar "Yspryd y Celt"; ar Mr. Enoch Morrell, maer cyntaf Merthyr, ar "Urddasolrwydd Llafur," ac yr oedd yntau yn dda iawn. Yr ydym, hefyd, wedi cael cyfres o ddarlithiau gan y gweinidog ar bynciau celfyddydol a chymdeithasol, a da genym ddweyd fod y capel yn llawn bob nos Sul, a chymerir dyddordeb mawr yn y darlithiau. Mae yr ail gyfres newydd ddechreu.—O dan nawdd y Gymdeithas Undodaidd Seisnig talwyd ymweliad â ni gan y Parch. Arthur Golland, M.A., Casnewydd-ar-Wysg, a'r Parch. D. G. Rees, Penybont-ar-Ogwr. Yr oedd yr anerchiadau yn odidog o dda.

CAPELYGROES.—Ar y trydydd o Ragfyr cynhaliwyd cyfarfod yn y lle uchod er mwyn cyflwyno anrhegion priodasol i'r gweinidog (Parch. D. Evans) a'i briod. Da oedd genym weled y capel yn orlawn gan gynulleidfa barchus: a pheth arall barodd hyfrydwch oedd gweled cynifer o weinidogion yn bresenol. Ar ol darllen a chanu, etholwyd yr hybarch John Davies, Alltyplaca, i'r gadair, gan yr hwn y cafwyd araeth ardderchog. Wedi hyn cafwyd unawd gan Mr. Richard Evans, Moelfre, ac yna cafwyd areithiau gan y Parchn. R. C. Jones, Llanbedr, a L. Williams, Rhydygwin. Yn canlyn daeth Mr. Evan Evans, Cwmpib, yn mlaen i gyflwyno "côd o aur" i Mr. Evans, gan ddymuno hir oes a phob dedwyddwch iddo ef a'i briod. Yna daeth Miss M. J. Jenkins, Blaenwaunuchaf, yn mlaen i gyflwyno *tea service* i Mrs. Evans. Cafwyd penillion tarawiadol gan yr olaf. Yna daeth Miss M. Jones, Abernant, i roddi *flower vase* i Mrs. Evans, ac yna cafwyd penillion difyrus iawn gan yr Henadur Evans, Ffynonfair, a Miss M. Jones, Tynewydd. Wedi hyn atebodd y Parch. D. Evans mewn cawod o ddiolchiadau am y rhoddion gwerthfawr a'r parch diffuant oeddynt wedi ddangos iddo ef a'i briod.

Y GRAIG A GELLIONEN.—Cafodd ein parchus weinidog yr anrhydedd o dderbyn saith o aelodau newyddion, a rhoddodd yntau ar ran yr eglwys fraich a chalon rhyddfrydig iddynt, gan obeithio y byddant yn hapus a llawen yn ngwaith yr eglwys i fewn ac allan.

Nos Nadolig cawsom gyfarfod ad-

loniadol rhagorol, yn Ysgoldy y Cynghor, dan lywyddiaeth Alfa. Hefyd, yn y prydnawn, cafwyd *Xmas tree* i'r plant, a mwynhaodd pawb eu hunain yn benigamp. Dymunir diolch yn fawr i bawb fu yn gwneud eu rhan i gael y cyfan oddiamgylch mor ddianaf.

Dymunwn longyfarch Alfa yn ei waith anhawdd yn cipio cadair anrhydeddus Eisteddfod fawreddog Meirion Calan diweddaf.

I fardd cadeiriol Meirion
Y rho'wn y clod a'r bri,
Rhaid tori enaint calon
Ar ben ein Halfa ni ;
Fe lwyddodd yn y diwedd
I gipio Meirion fawr !
Bu'n ail i Gwili llynedd,
Ond "Wele, daeth yr awr."

Bu'n canu gyda'i delyn
Ar fynydd Wâtcyn Wyn,
Ar fynydd Pain a Browning,
O ! dyma fynydd gwyn ;
Mae'n fynydd y mynyddau,
Anfarwol fynydd yw,
A chanodd Alfa 'i salmau
Ar gopa "Mynydd Duw."

I fynu mae y wawrddydd,
I'r lan mae "Mynydd Duw,"
Nid ar y bryndir llonydd,
Nid yn y dyffryn gwyw ;
Mae profiad gwyn yr oesau
Yn tystio'n gryf i'n clyw,
Mai yn y bywyd gorau
Mae cartref "Mynydd Duw."

Ar ddechreu blwyddyn newydd
O fywyd yn y byd,
Rho'wn dro i ben y mynydd,
Sy'n para'n wyn o hyd ;
Os am i'r gweddnewidiad
I lasu'n bywyd gwyw,
Cyfeiriwn ein cerddediad
Hyd lethrau "Mynydd Duw."

—BANOS.

CAPELYGROES. — Cynhaliwyd y gymanfa ysgolion arferol eleni yn y lle uchod. Adroddwyd penodau gan ysgolion Capelygroes ac Ailtyplaca, a holwyd hwynt gan weinidog y lle. Yr oedd gwedd lewyrchus ar y ddwy ysgol.

DERBYNIWYD Y CANLYNOL AT DDILEU DYLED CAPEL Y PENTRE. —*Trwy law Miss Maggie Lloyd, Ysgol Gorsgoch — (Parhad)* : — J. Thomas, Crydd, 1s. ; D. Jones, Troedyrhiw, 2s. 6d. ; Mrs. Davies, 2s. 6d. ; J.P., 10s. ; E. Jones, Ceginan, 5s. ; E. Lloyd, Cwmmarch, 5s. ; er mwyn y Parch. o Danycoed, 10s. 6d. ; T. S. Jones, Moelhedogissaf, 10s. ; Rev. D. G. Rees, Bridgend, 1*l* 1s. ; E. Morgan, Moelfre, 5s. ; D. Evans, Alltyrodyn Arms, 10s. ; J. Jones, Camnantfach, 5s. ; Rhys Lloyd, Caerau, 1*l*. *Oddiwrth gyfeillion eraill :* Parch. W. James, B.A., Y.H., 1*l* ; Parch. T. Arthur Thomas, C.S., 5s. ; J. Morgan, Abernantygroes, 2*l* ; S. Davies, Coedparc, 2s. 6d. ; Anthony Edwards, 5s. ; W. Edwards, 5s. ; D. Evans, Cilgell, 5s. ; G. Jones, Castell, 2s. 6d. ; G. Jones, Frowen, 2s. 6d. ; D. Jones, Cymmer, 10s. 6d. ; E. Griffiths, Tylorstown, 5s. ; D. Thomas, Tylorstown, 5s. ; J. Williams, Ferndale, 5s. ; Lydia Morgan, Tylorstown, 2s. 6d. ; Mrs. Edwards, Tylorstown, 2s. 6d. ; Mrs. Swain, Tylorstown, 1s. ; P.S. Thomas, Ferndale, 5s. ; P.C. J. Davies, Ferndale, 7s. 6d ; D. Thomas, Junior, Tylorstown, 5s. ; L. Davies, Llwynifan, 2s. 6d. ; D. Lloyd, Llysfaenuchaf, 2s. ; B. Thomas, Pantnewydd, 2s. ; D. Evans, Ffynonfair, 3s. ; Dienw, Lampeter, 2s. ; J. Jones, Cwmynach, 5s. ; T. Jonathan, Foelallt, 10s. 6d. ; D. Daniel, Drewen, 2s. 6d. ; Messrs. Evans & Thomas, Llandyssul, 1*l* 1s. ; Saunders Davies, 10s. ; Dr. Evans, Lampeter, 1*l* ; D. Evans, Abercerdin Mills, 10s. 6d. ; C., Birmingham, 2*l* 2s.

CHRISTR, THOMAS, & BROS, Ltd., Bristol,

Have the Leading Reputation in Wales for their

HOUSEHOLD & TOILET SOAPS

THE FAVOURITE QUALITY IS

CHRISTR. THOMAS, & BROS., LTD., BEST PALE

Which, as well as the other sorts, can be obtained, wholesale and retail, from

T. E. JONES & Co., LLANDYSSUL.

OLD SHOP, CRIBYN.

D. J. THOMAS,

General Draper, Milliner, Grocer, Ironmonger, and Boot and Shoe Merchant.

A well Selected Stock of Capes, Jackets and Millinery always on hand.

Agent for E. W. PRATT & Co., Bristol, Manufacturers of the well-known "Holdfast" Brand of Boots and Shoes.

CATALOGUES FREE.

Fresh Vegetable Seeds

Fresh Flower Seeds

Funeral Wreaths & Designs, Wedding Bouquets.

HARRY COYSH,

Garden Expert & Flower Artist.

NOTT SQ., CARMARTHEN.

CHANNING HOUSE.

High School for Girls and Unitarian Boarding School,

HIGHGATE, LONDON, N.

Head Mistress: Miss LILIAN TALBOT, B.A. Honours (Lond.),

To whom all enquiries should be addressed.

Fees per Term: Boarders, £17 17s., including Free Laundry; with Music, £19 19s. Daughters of Unitarian Ministers, £10 13s. 6d.; with Music, £12 5s. Day Scholars, Three to Five Guineas. The above Fees include all Classes for London Matriculation, also Drawing & Class Singing.

☞ Good Playground, Cricket, Tennis, Hockey.

☞ Opportunities afforded for Sight-seeing in London.

Committee of Management—Mrs. W. Blake Odgers, F. J. Nettlefold, Esq., F. Preston, Esq., W. A. Sharpe, Esq., Mrs. W. A. Sharpe, Harold Wade, Esq., Mrs. W. Wedding, R. M. Montgomery, Esq.

BEN EVANS & Co.,

THE ACKNOWLEDGED HOUSE

FOR

FURNITURE.

Rare Materials and Elaborate Workmanship are necessarily costly, but that the main essentials of a piece of Furniture—Beauty, Reliability, and Adaptability—may be secured at Low Prices, will be amply proved by an inspection of our Immense Stocks.

Inferior, badly-made Furniture is never CHEAP, no matter what its price may be.

We sell only such as we know will give satisfaction in use and afford gratification by its appearance, at prices which are Strictly Moderate and based entirely on the value of the materials used.

Our Show Rooms are now replete with the Finest Collection of Furniture and Furnishing Materials for all kinds of houses we have ever shown, and we respectfully invite intending purchasers to examine the same before placing their orders.

FURNITURE CATALOGUE (80 PAGES) FREE ON REQUEST . . . .

Renovations & Removals. Estimates Free.

BEN EVANS & CO., LTD. SWANSEA.